



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Llywodraeth Cynulliad Cymru

**Adroddiad Blynyddol
Iaith Pawb a'r Cynllun
Iaith Gymraeg
2008-09**

Rhagair

Pleser yw cyflwyno chweched Adroddiad Blynyddol *Iaith Pawb* a'r Cynllun Iaith Gymraeg sy'n disgrifio'r gwaith a wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y cyd â'i phartneriaid yn ystod 2008/09 er mwyn cyrraedd y nod o greu Cymru wirioneddol ddwyieithog, fel yr amlinellwyd yn *Iaith Pawb*.

Fel y dengys yr enghreifftiau niferus yn yr adroddiad hwn, rydym yn dechrau ar sylfaen gadarn. Mae'r Gymraeg yn elfen graidd yn y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i'r cyhoedd, yn ein strategaethau ac yn ein gweithgareddau datblygu polisi.

Eleni, ein hamcan canolog o dan *Cymru'n Un* fu'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ynghylch y Gymraeg, a gyhoeddwyd ar 2 Chwefror 2009. Os caiff y Gorchymyn ei gymeradwyo gan y Cyfrin Gyngor, byddwn yn bwrw ymlaen â'n cynlluniau ar gyfer Mesur a fydd yn arwain at gadarnhau statws swyddogol i'r Gymraeg ac i'r Saesneg, at sefydlu hawliau ieithyddol ac at sefydlu Comisiynydd Iaith.


O ran ymrwymadau ehangach *Cymru'n Un*, cefais y ffrainc o fod y Gweinidog cyntaf i siarad Cymraeg mewn cyfarfod o Gyngor Gweinidogion Ewrop. Mae'r gwaith yn parhau i alluogi'r cyhoedd i ohebu â'r Comisiwn Ewropeaidd yn Gymraeg.

Mae lle canolog o hyd i addysg yn ein polisiâu ar gyfer y Gymraeg, a byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol ein Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ddechrau 2010. Yn y cyfamser, mae'r gwasanaeth newyddion Cymraeg ar-lein Golwg360 yn rhoi dimensiwn mwyfwy bywiog i'n darpariaeth materion cyfoes.

Yn naturiol, rwy'n croesawu'r cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yn yr ardaloedd dwyreiniol. Ond mae hefyd yn achos pryder inni fel Llywodraeth fod y Gymraeg yn colli tir fel iaith lafar yn ei chadarnleoedd. Gwelwyd gostyngiad yn nifer y cymunedau lle mae dros 70% yn siarad Cymraeg - gostyngiad o 92 yn 1991 i 54 yn 2001 - ac mae'n fwriad gennym fynd i'r afael â hyn wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Wrth inni wynebu cyfnod cyffrous arall yn hanes polisi'r Gymraeg, edrychaf ymlaen yn eiddgar at barhau â'r gwaith o greu Cymru wirioneddol ddwyieithog, a rhoi gwybod y flwyddyn nesaf am y cynnydd yn hynt y Gorchymyn, y Mesur a'r strategaeth iaith newydd.

O fewn Llywodraeth y Cynulliad, mae cynllun gweithredu ar gyfer gwella dwyieithrwydd eisoes ar waith, ynghyd â gwaith paratoi ar gyfer Cynllun Iaith newydd ar gyfer 2010. Rydym hefyd yn adolygu'r strategaeth iaith i sicrhau bod ein polisi'n cydymffurfio â'r Mesur Iaith arfaethedig ac yn ategu'r fframwaith ehangach.



Alun Ffred Jones AC, Y Gweinidog dros Dreftadaeth

Crynodeb Gweithredol

Cefndir

Mae nod Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y Gymraeg wedi'i ddisgrifio yn y ddogfen bolisi *Cymru'n Un* – y nod yw creu Cymru wirioneddol ddwyieithog lle gall pobl fyw eu bywyd drwy'r Gymraeg, y Saesneg neu'r ddwy iaith.

Mae'r Llywodraeth wrthi'n gweithio i gyrraedd y nod hwnnw drwy Gynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog, *laith Pawb*, a gyhoeddwyd yn 2003. Yn ogystal â hynny, mae gofyniad statudol i'r Llywodraeth drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal drwy ei pholisïau a'i gwasanaethau. Bydd yn gwneud hynny drwy ei Chynllun Iaith Gymraeg (cymeradwywyd fersiwn wedi'i diweddarau o'r Cynllun hwn ar 22 Rhagfyr 2006).

Mae'n gyfrifoldeb ar Weinidogion Cymru a'u swyddogion i gwrdd â gofynion y naill ddogfen a'r llall, ac i nodi a mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn eu meysydd polisi. Hwn yw'r chweched adroddiad yn y gyfres hon.

Rhan 1 – Cynnydd o ran cyflawni *laith Pawb*

Ymestyn Cynlluniau Iaith Gymraeg o dan y Ddeddfwriaeth Bresennol

Mae Cynlluniau Iaith Gymraeg yn gweithredu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac maent yn nodi sut y bydd corff sy'n cyflenwi gwasanaethau i'r cyhoedd yn gweithio i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

- Fis Mai 2008, cyhoeddwyd y byddai gofyn i 57 o gyrff ychwanegol sy'n darparu amryw o wasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru weithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg. Ymhlith y cyrff hyn yr oedd y Post Brenhinol, Banc Lloegr, Ofcom, y Cyngor Prydeinig ac UK Sport.
- Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a gafodd £13.5 miliwn o gymorth grant gan Lywodraeth y Cynulliad yn 2008-9, yn cyflawni'r rôl o gymeradwyo Cynlluniau Iaith a chynnig cyngor a gwybodaeth i gyrff sy'n gweithredu'r cynlluniau hynny. Yn 2008-09 cymeradwywyd 43 o gynlluniau newydd, gan ddod â chyfanswm y cynlluniau sydd ar waith i 450.

Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch y Gymraeg

Yn dilyn cyhoeddi *Cymru'n Un* fis Gorffennaf 2007, mae Adran Dreftadaeth Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn gweithio ar yr ymrwymiad i geisio mwy o gymhwysedd deddfwriaethol ynghylch y Gymraeg. Pe câr cymhwysedd hwnnw ei roi, byddai'n caniatáu i'r Cynulliad gyflwyno Mesurau i gyflawni'r ymrwymadau yn *Cymru'n Un* i wneud y canlynol:

- Cadarnhau statws swyddogol y Gymraeg a'r Saesneg;
- Sefydlu hawliau ieithyddol o ran darparu gwasanaethau;
- Sefydlu Comisiynydd Iaith.

Cyhoeddwyd cynigion ar gyfer y gorchymyn hwnnw ar 2 Chwefror 2009 er mwyn i broses o graffu cyn deddfu gael ei chynnal yn Nhŷ'r Cyffredin a'r Cynulliad Cenedlaethol.

Adolygiad o'r Cyfryngau Print Cymraeg

Fis Mai 2008, dyfarnwyd contract i Golwg Cyf i ddarparu gwasanaeth newyddion Cymraeg dyddiol ar y we. Nod y buddsoddiad hwn o fwy na £600,000 dros dair blynedd yw hybu newyddiaduraeth Gymraeg yng Nghymru drwy sicrhau lluosogrwydd o ran darparu gwasanaethau o'r fath a hybu datblygiad y diwydiant.

Lansiwyd y gwasanaeth ei hun, Golwg360, ym mis Mai 2009.

Defnydd o'r Gymraeg gan Sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dal i gydweithio â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ganiatáu i gynrychiolwyr etholedig siarad Cymraeg yng nghyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion ac yng nghyfarfodydd llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ac i ganiatáu i ddinasyddion ohebu yn Gymraeg â phrif sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd.

- Defnyddiwyd y Gymraeg yn y Cyngor ac ym Mhwyllgor y Rhanbarthau am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2008, pan draddodwyd araith gan Weinidog Treftadaeth Llywodraeth y Cynulliad.
- Disgwylir cytundeb â'r Comisiwn Ewropeaidd ar ohebiaeth yn y Gymraeg cyn hir ac mae trafodaethau ar y gweill â phrif sefydliadau eraill yr UE.

Addysg

Mae addysg yn hanfodol o ran diogelu dyfodol y Gymraeg.

- Sefydlwyd panel i ddatblygu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg newydd. Sefydlwyd hefyd Uned Datblygu'r Iaith Gymraeg newydd ym mis Ebrill 2008 o fewn yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS).
- Dyrannwyd £1.2 miliwn ar gyfer datblygu darpariaeth 14-19 cyfrwng Cymraeg/dwyieithog fel rhan o'r Cynlluniau Datblygu Rhwydwaith Blynyddol 14-19 ar gyfer 2008-09.
- Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i gynnal chwe chanolfan Cymraeg i Oedolion am dair blynedd ychwanegol – buddsoddiad o £6.7 miliwn.

Yr Economi a Busnes

- Datblygodd Bwrdd yr Iaith gynllun i dynnu sylw at y nifer mawr o fusnesau sy'n defnyddio'r Gymraeg. Mae **Cefnogi'r Gymraeg** yn gwahodd busnesau i wneud 10 ymrwymiad syml.
- Cyflwynodd Tesco (ar y cyd â Bwrdd yr Iaith) y til hunanwasanaeth sy'n cynnig

rhyngwyneb Cymraeg i gwsmeriaid. Mae Bwrdd yr Iaith wedi cynnig cyngor hefyd i gwmni John Lewis ar ddefnyddio'r Gymraeg yn ei siop gyntaf yng Nghymru.

- Darparwyd pecyn cyllid o £1 filiwn ar gyfer amryw o fentrau peilot i ddatblygu rôl y Gymraeg yn y broses o hybu a hyrwyddo gweithgareddau adfywio penodol yn Ll•n a gogledd Meirionnydd.

Ymysg y mentrau a dderbyniodd gymorth roedd gwelliannau yng Nghanolfan Iaith Nant Gwrtheyrn er mwyn diwedddaru'r cyfleusterau. Mae Brocer Iaith yn cael ei benodi i weithio yng Nghaernarfon i ganolbwyntio ar helpu pobl sy'n economaidd anweithgar i ddatblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y farchnad waith – cynllun a weinyddir ac a oruchwylir gan Tai Eryri. Tai Eryri sydd hefyd yn gyfrifol am brosiect Congl Meinciau, Botwnnog, i ddatblygu tai fforddiadwy a chanolfan fenter ar gyfer busnesau bach. Mae prosiectau unigol gwerth £0.4 miliwn wedi'u cwblhau ym Mlaenau Ffestiniog ac mae pecyn £4.5 miliwn arall i adfywio a gwella canol Blaenau Ffestiniog ar y gweill, a chais yn cael ei baratoi ar gyfer cyllid Ewropeaidd.

Iechyd

- Mae 7 o'r 9 Ymddiriedolaeth GIG wedi penodi Swyddog Iaith Gymraeg a sefydlwyd Unedau Iaith Gymraeg rhanbarthol ar gyfer y Byrddau Iechyd Lleol.
- Cynhaliwyd Cynhadledd a Chyfarfod Gwobrwyo blynyddol y Gymraeg mewn Gofal Iechyd ym mis Mai 2008.

Y Trydydd Sector

- Bu ymgynghori ar gompact drafft rhwng Llywodraeth y Cynulliad, Bwrdd yr Iaith a'r trydydd sector, gyda golwg ar gymell mabwysiadu Cynlluniau Iaith Gymraeg gwirfoddol i reoli darparu gwasanaethau dwyieithog. Anogir sefydlu Cynlluniau Iaith Gymraeg gwirfoddol lle nad yw'r gyfraith eisoes yn mynnu bod cyrff yn rhoi un ar waith. Mae'r holl bartïon wedi cytuno y dylid gohirio lansio'r compact a disgwyl y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ynghylch y Gymraeg. Pan fydd hwnnw mewn grym, ailystyriw y compact a'i lansio ar ôl hynny.

Diwylliant a Chwaraeon

- Darparwyd arian ychwanegol i'r Eisteddfod Genedlaethol (£100,000) ac Urdd Gobaith Cymru (£150,000) drwy Fwrdd yr Iaith.
- Cafwyd partneriaeth rhwng Llywodraeth y Cynulliad, Cyngor Chwaraeon Cymru ac Undeb Rygbi Cymru a oedd yn hyrwyddo ac yn amlygu pwysigrwydd a pherthnasedd y Gymraeg i rygbi undeb.
- Mae awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu chwaraeon yn cydweithio i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc fwynhau chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg a hyfforddi hyfforddwyr Cymraeg.

Rhan 2 – Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae'r adran hon yn bwrw golwg ar ein gwaith o gydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth y Cynulliad, a hefyd yn tynnu sylw at feysydd ar gyfer gwaith pellach yn y dyfodol.

Sgiliau yn y Gymraeg

- Mae gan 41% o weithlu presennol Llywodraeth y Cynulliad ryw lefel o sgiliau yn y Gymraeg, yn amrywio o lefel 1 (sylfaenol) i lefel 5 (rhugl).
- Ym mis Chwefror 2009, ychwanegwyd sgiliau iaith Gymraeg at U-Access (system TG Adnoddau Dynol Llywodraeth y Cynulliad), fel y gallai staff gofnodi a diweddarau eu sgiliau iaith eu hunain. Mae hyn yn ddatblygiad o bwys o ran helpu i ddynodi'r sgiliau o fewn y sefydliad.

Cydymffurfiaeth a Gallu Ieithyddol Is-adrannau Llywodraeth y Cynulliad

- Yn 2008-09, roedd cynnydd yng nghyfran yr is-adrannau a ymgwymerodd â thasgau penodol heb ddibynnu ar y Gwasanaeth Cyfieithu.
- Nododd 12 o'r 16 o adrannau a ymatebodd eu bod yn darparu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen. Dywedodd pob un ohonynt fod staff dwyieithog yn rhai o'u timau o leiaf.
- Nododd pob un o'r 12 adran hynny eu bod yn cynnal archwiliadau i asesu sgiliau iaith staff, yn gwneud asesiadau i bennu swyddi y mae angen staff Cymraeg ar eu cyfer ac yn dadansoddi bylchau yn y ddarpariaeth o staff Cymraeg.
- Roedd trefniadau ffurfiol ar waith gan 14 o'r 16 o adrannau i sicrhau bod y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo.

Y Prosiect Gwella Dwyieithrwydd

Yn ystod gwanwyn 2009, cychwynnodd Llywodraeth y Cynulliad brosiect gwella dwyieithrwydd, i sicrhau datblygu'r arferion gorau ar gyfer cyflawni ein Cynllun Iaith Gymraeg yn effeithiol.

Cyfleusterau Cyfieithu

Mae anghenion corff mor fawr ac amrywiol â Llywodraeth y Cynulliad o ran cyfieithu ysgrifenedig yn enfawr wrth inni ymdrechu i gwrdd â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg o ran darparu cyhoeddiadau a defnyddiau ysgrifenedig.

- Mae maint y deunydd a gaiff ei gyfieithu'n anferth, yn fwy na 10,000 o ddogfennau yn 2008-09, ac mae system flaenoriaethu ar waith i sicrhau bod adnoddau cyfyngedig yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol.
- Mae adolygiad annibynnol wedi'i gomisiynu o rôl y Gwasanaeth Cyfieithu o fewn y sefydliad. Disgwylir cael yr adroddiad terfynol yn ystod 2009-10.

Hyfforddiant

Mae Acen o dan gontract ar hyn o bryd i gynnal hyfforddiant Cymraeg ar gyfer staff Llywodraeth y Cynulliad. Cynigir hyfforddiant sy'n addas i wahanol lefelau, sy'n amrywio o'r lefel cyn-mynediad a'r lefel rhugledd.

- Cynhaliwyd 38 o gyrsiau rhwng Ebrill 2008 a Mawrth 2009 mewn 13 o wahanol leoliadau ledled Cymru.
- Er hyn, mae'r galw am hyfforddiant yn fwy na'r hyn sydd ar gael. Y gyllideb flynyddol ar gyfer Hyfforddiant yn y Gymraeg yw £169,000.
- Gwnaed gwaith pellach yn 2008-09 i ganfod cyfleoedd i gynnwys materion y Gymraeg mewn hyfforddiant cyffredinol, gan gynnwys modiwlau hyfforddiant wedi'u haddasu i roi sylw i anghenion y staff.

Llunio Polisi

- Mae rhestrau gwirio ynglŷn â'r polisi iaith wedi'u cynnwys ym mhroses Porth i Bolisiau Llywodraeth y Cynulliad ers Mai 2008.
- O blith y 12 o adrannau a nododd fod integreiddio elfennau ieithyddol yn eu gwaith polisi'n berthnasol iddynt, dywedodd mwy na hanner eu bod yn gwneud hynny bob amser.
- Dywedodd 10 o'r adrannau a ymatebodd fod eu dogfennau ymgynghori'n cynnwys rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg.

(Sylwer bod yr Adroddiad Blynyddol eleni'n cynnwys tystiolaeth o'r cyfnod adrodd rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2009).

Adroddiad Blynyddol *laith Pawb* a'r Cynllun Iaith Gymraeg, 2008-09

Rhagymadrodd

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae ein gweledigaeth ar gyfer Cymru ddwyieithog yn un uchelgeisiol. Bydd Cymru ddwyieithog yn wlad lle gall pobl ddewis byw eu bywyd drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg (neu'r ddwy iaith) a lle mae presenoldeb y ddwy iaith yn ffynhonnell balchder a chryfder i bob un ohonom.

Cyhoeddwyd *laith Pawb*, y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog, yn 2003. Mae Gweinidogion Cymru a'u swyddogion yn rhannu cyfrifoldeb dros y camau gweithredu hyn a thros ddynodi a rhoi sylw i faterion iaith Gymraeg yn eu meysydd polisi.

Cyd-destun Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth y Cynulliad

Paratowyd Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth y Cynulliad¹ yn unol ag Adran 21 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a chafodd ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith ar 22 Rhagfyr 2006.

Mae'r Cynllun yn nodi sut bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gwireddu'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

Monitro yn 2008-09

Yn 2008-09, cynhaliodd Uned yr Iaith Gymraeg yn Llywodraeth y Cynulliad broses fonitro lefel-uchel ar gynnydd a pherfformiad yn ôl yr ymrwymadau yn *laith Pawb* ac yn y Cynllun Iaith Gymraeg. Y prif ddulliau monitro a ddefnyddiwyd oedd:

- holiadur hunanasesu ac adroddiad cydymffurfio a gwblhawyd gan Adrannau unigol yn Llywodraeth y Cynulliad;
- gwybodaeth a ddarparwyd gan is-adrannau a chyrrff sydd â chyfrifoldeb arweiniol dros bwyntiau gweithredu yn *laith Pawb*;
- ffurflenni blynyddol a ddarparwyd gan Is-adrannau sy'n gyfrifol am swyddogaethau gweinyddol penodol, fel hyfforddi a chyfieithu;
- Cynlluniau Gweithredu Iaith yr Adrannau.

Trefn yr Adroddiad Blynyddol

Mae Rhan 1 yr Adroddiad Blynyddol hwn yn disgrifio'r cynnydd a wnaethpwyd ar y pwyntiau gweithredu a'r prosiectau yn *laith Pawb*, ynghyd â phrosiectau newydd a ddatblygwyd ers ei gyhoeddi - pob un ohonynt wedi cyfrannu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf at greu Cymru ddwyieithog. Mae Rhan 2 yr adroddiad yn disgrifio perfformiad Llywodraeth y Cynulliad a chynnydd ar yr ymrwymadau yn y Cynllun Iaith.

¹ <http://new.wales.gov.uk/topics/welshlanguage/publications/06wlangscheme/?lang=cy>

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi sut rydym wedi symud ymlaen o ran prif ffrydio'r Gymraeg ym mhob rhan o fusnes Llywodraeth y Cynulliad ac yn y broses o lunio polisiau.

Rhan 1: Adroddiad Blynyddol Iaith Pawb

1. Arweinyddiaeth Wleidyddol a Strategol

Rhagymadrodd

Yn y rhan hon o'r Adroddiad Blynyddol disgrifir y gweithgareddau a gyflawnwyd yn 2008-09 sydd wedi cyfrannu at yr agenda o greu Cymru ddwyieithog yn unol â *Iaith Pawb*; cyflawni ymrwymadau yn *Cymru'n Un* a phrif ffrydio'r Gymraeg.

Ymrwymadau *Cymru'n Un*

1.1 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo, drwy *Cymru'n Un*, i raglen sy'n cydnabod bod dwy iaith swyddogol yng Nghymru.

(i) Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch y Gymraeg

1.2 Yn dilyn cyhoeddi *Cymru'n Un* ym mis Gorffennaf 2007, mae'r Adran Dreftadaeth yn Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn gweithio ar yr ymrwymiad i geisio mwy o gymhwysedd deddfwriaethol ynghylch y Gymraeg.

1.3 Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ei chynigion ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch y Gymraeg ar 2 Chwefror 2009 ar gyfer cynnal proses graffu cyn y broses ddeddfu, gan y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn Nh•r Cyffredin a chan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 y Cynulliad Cenedlaethol.

1.4 Os caiff ei gymeradwyo, bydd y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn rhoi mecanwaith i'r Cynulliad gyflwyno Mesurau yn y dyfodol ynghylch y Gymraeg er mwyn cyflawni'r ymrwymadau yn *Cymru'n Un*, sef:

- cadarnhau statws swyddogol y Gymraeg a'r Saesneg;
- sefydlu hawliau ieithyddol o ran darparu gwasanaethau;
- sefydlu Comisiynydd Iaith.

1.5 Mae'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn ategu'r gwaith gan Lywodraeth y Cynulliad i wireddu'r weledigaeth o Gymru wirioneddol ddwyieithog.

(ii) Adolygiad o'r Cyfryngau Print Cymraeg

1.6 Ym mis Chwefror 2008 cyhoeddodd y Gweinidog blaenorol dros Dreftadaeth y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn darparu £600,000 dros dair blynedd (£200,000 y flwyddyn) i gyflawni'r ymrwymiad yn *Cymru'n Un* i ddarparu gwasanaeth newyddion Cymraeg dyddiol. Roedd y cyllid i gael ei sianelu drwy Gyngor Llyfrau Cymru, a fyddai'n goruchwyllo ac yn gwerthuso'r prosiect.

1.7 Ym mis Mai 2008, dyfarnwyd contract i Golwg Cyf i ddarparu gwasanaeth newyddion Cymraeg dyddiol ar y we. Y bwriad yn hyn o beth oedd rhoi hwb i newyddiaduraeth Gymraeg ac i ddatblygu corff newyddion cynaliadwy yng ngorllewin Cymru. Mae'r datblygiad hwn yn cryfhau'r diwydiant ac yn rhoi lluosogrwydd yn y sector newyddion Cymraeg.

1.8 Lansiodd Golwg360 ym mis Mai 2009 (<http://www.golwg360.com>). Mae'n cynnwys gwasanaeth newyddion treigl a'r cyfle i fusnesau, cyrff cyhoeddus, cyrff cymunedol ac unigolion greu eu safleoedd bach eu hunain ar Golwg360. Mae'r cynllun busnes wedi'i seilio ar sicrhau cyfran gynyddol o incwm o'r safleoedd bach y telir amdanynt (busnesau a chyrff cyhoeddus) ac o hysbysebu er mwyn galluogi'r gwasanaeth i ddod yn llai dibynnol ar arian cyhoeddus yn y dyfodol.

(iii) Defnydd o'r Gymraeg gan Sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd

1.9 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dal i gydweithio â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ganiatáu:

- i gynrychiolwyr etholedig siarad Cymraeg yng nghyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion ac yng nghyfarfodydd llawn Pwyllgor y Rhanbarthau;
- i ddinasyddion ysgrifennu yn Gymraeg i'r Cyngor, Pwyllgor y Rhanbarthau, y Comisiwn Ewropeaidd, Senedd Ewrop, y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol ac at yr Ombwdsmon ac i gael atebion yn yr un iaith.

1.10 Llofnodwyd y cytundeb gweinyddol cyntaf i'r diben hwnnw rhwng Llywodraeth y DU a'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2008 a chytunwyd ar yr ail â Phwyllgor y Rhanbarthau ym mis Tachwedd 2008.

1.11 Yn dilyn cytundeb a lofnodwyd gan Lywodraeth y DU a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd ym mis Gorffennaf 2008, y Gweinidog dros Dreftadaeth oedd y Gweinidog cyntaf erioed yn Llywodraeth y Cynulliad i siarad Cymraeg mewn cyfarfod o Gyngor y Gweinidogion, a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2008.

1.12 Ymhen llai nag wythnos wedyn, Nerys Evans AC oedd y cyntaf i annerch cyfarfod llawn o Bwyllgor y Rhanbarthau yn Gymraeg ar ôl i gytundeb tebyg gael ei wneud rhwng Pwyllgor y Rhanbarthau a Llywodraeth y DU. Darparwyd y cyfieithu ar y pryd gan gyfieithwyr o Gymru a oedd wedi llwyddo mewn arholiadau i'w hachredu gan wasanaeth cyfieithu'r UE.

1.13 Mae cytundeb ar fin cael ei wneud â'r Comisiwn ar yr elfen ohebu ac mae trafodaethau ar y gweill (ar lefel Llywodraeth y DU) â Senedd Ewrop, y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol a'r Ombwdsmon. Os caiff y cytundebau eu mabwysiadu, bydd hyn yn caniatáu i ddinasyddion ysgrifennu i'r cyrff hyn yn Gymraeg.

Cyflawniadau o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol

1.14 Roedd ymrwymiad yn *laith Pawb* i 'barhau i weithio i ganfod rhagor o sefydliadau sydd yn darparu gwasanaethau o natur gyhoeddus y gellir ei gwneud yn ofynnol iddynt weithredu Cynlluniau laith Gymraeg'.

1.15 Ym mis Mai 2008 cyhoeddodd y Gweinidog blaenorol dros Dreftadaeth enwau

57 o gyrff sy'n darparu amryw o wasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, gyda'r bwriad o'u pennu fel gyrff cyhoeddus o dan Adran 6(1)(o) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Ymhlith y gyrff a enwyd yr oedd y Post Brenhinol, Banc Lloegr, y Comisiwn Cystadleuaeth, UK Sport, Ofcom, y Cyngor Prydeinig ac Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd. Daeth y Gorchymyn i rym ym mis Awst 2008 a chynhwysai'r nifer uchaf o lawer o gyrff a enwyd o dan Adran 6(1)(o) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

Cyflawni a chydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

1.16 Mae Uned yr Iaith Gymraeg yn Llywodraeth y Cynulliad, sydd wedi'i lleoli yn yr Adran Dreftadaeth, yn gyfrifol am ddarparu cyngor a chymorth ar bolisi i'r Gweinidog dros Dreftadaeth ar y Gymraeg, yn ogystal â nawdd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor Llyfrau Cymru.

1.17 Mae pob Portffolio Gweinidogol ac adran o fewn Llywodraeth y Cynulliad yn gyfrifol am gyflawni ei ymrwymadau ei hun o dan *Iaith Pawb* a'r Cynllun Iaith Gymraeg ac am eu hintegreiddio â dulliau gweithredu.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

1.18 Prif swyddogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg² yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a chymeradwyo cynlluniau iaith. Mae'r Bwrdd yn cynnig cyngor a gwybodaeth ynghylch defnyddio'r Gymraeg; yn sicrhau bod gyrff cyhoeddus yn darparu gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg; yn cadw trosolwg ar bob agwedd ar addysg a hyfforddiant Cymraeg; ac yn annog ac yn helpu cwmnïau preifat a chyrff gwirfoddol i ddefnyddio mwy o Gymraeg. Yn 2008-09 cafodd Bwrdd yr Iaith gymorth grant o £13.5 miliwn gan Lywodraeth y Cynulliad.

1.19 Yn ystod 2008-09, cymeradwyodd Bwrdd yr Iaith 43 o Gynlluniau Iaith Gymraeg newydd, gan ddod â chyfanswm y Cynlluniau sydd ar waith i 450. Ymatebodd y Bwrdd hefyd yn ystod y flwyddyn i 188 o adroddiadau monitro ar gynlluniau iaith Gymraeg presennol, ac adolygwyd 30 o gynlluniau.

Data ac Ymchwil

1.20 Yn ystod 2008-09, cyhoeddodd Bwrdd yr Iaith ganlyniadau'r Arolwg Defnydd Iaith 2004-2007. Mae'r canlyniadau o'r arolygon manwl hyn yn cynnig darlun cyfoes o'r defnydd o iaith, ac yn rhoi sylfaen dystiolaeth gadarn y gall y Bwrdd ei defnyddio i ddatblygu a gweithredu polisiau a phrosiectau.

1.21 Yn 2008, cyhoeddwyd hefyd fersiwn wedi'i diweddarau o'r Fantolen Ystadegol ar y Gymraeg, sy'n casglu'r ystadegau diweddaraf ar y Gymraeg.

1.22 Mae'r Bwrdd yn dal i ariannu ysgoloriaethau PhD ym maes cynllunio ieithyddol cymwysedig, a dyfarnwyd dwy ysgoloriaeth newydd yn 2008-09, un i ymchwilio i'r defnydd o derminoleg arbenigol yn y gweithle, a'r llall i ymchwilio i brosesau mudo ymysg pobl ifanc, ac effeithiau'r prosesau hynny ar y Gymraeg.

² www.byig-wlb.org.uk

2. Addysg

2.1 Fel y nodwyd yn *Iaith Pawb*, mae addysg yn elfen hanfodol o ran diogelu dyfodol y Gymraeg.

Cymru'n Un (ymrwmiadau ynghylch Addysg)

2.2 Mae gwaith yn parhau i gyflawni'r ymrwmiadau yn **Cymru'n Un**, sef:

- Datblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg, wedi'i hategu gan raglen weithredu.
- Gofyniad i Awdurdodau Addysg Lleol (AALLau) asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys arolygon o ddymuniadau rhieni.
- Ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu Uned Cymraeg i Oedolion a ariennir yn ddigonol, gan roi blaenoriaeth i addysg diwtora.
- Sefydlu Rhwydwaith Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg – y Coleg Ffederal – er mwyn sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ein prifysgolion.

2.3 Mae **Uned Datblygu'r Iaith Gymraeg** yn dal i gydgyssylltu a hyrwyddo cyfraniad yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) i'r agenda bolisi ar y Gymraeg ac mae hefyd yn rheoli ac yn ariannu'r gwaith o ddatblygu prosiectau.

2.4 Aeth y **Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru)** drwy broses ddeddfu'r Cynulliad gyda'r bwriad iddo ddod i rym erbyn Medi 2009. Mae Adran 10 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru, wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau o dan y Mesur, i hybu mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Daeth yr adran hon i rym, gydag eraill, ar 6 Mawrth 2009.

Strategaeth genedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg

2.5 Parhaodd y gwaith o gyflawni'r ymrwymiad yn *Cymru'n Un* ar gyfer **strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg genedlaethol** i ddatblygu darpariaeth effeithiol, o addysg feithrin hyd at addysg bellach ac uwch, wedi'i hategu gan raglen weithredu – a chafodd ei lywio gan Banel Cyngori a gyfarfu bedair gwaith. Cynhaliwyd ystod eang o ymgynghoriadau â rhanddeiliaid eraill, y tu mewn a'r tu allan i Lywodraeth y Cynulliad, a chyflwynwyd y Strategaeth ddrafft i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau erbyn Mawrth 2009, yn unol ag amserlen *Cymru'n Un*. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod haf 2009, gan roi manylion y rhaglen weithredu a awgrymwyd.

Cynyddu gallu

2.6 Un agwedd allweddol ar sicrhau bod y ddarpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg yn dal i ehangu yw sicrhau bod digon o ymarferwyr sy'n gallu gweithio yn Gymraeg. Mae'r **Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg** bellach yn ei gyfnod treialu estynedig tan Awst 2010. Cynhelir gwerthusiad pellach o'i effaith cyn ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol. Hyd yn hyn, mae 144 o ymarferwyr wedi dilyn y cwrs a 98.5% ohonynt wedi'i gwblhau, a'r rhain yn cynnwys athrawon ysgol cynradd ac

uwchradd, darlithwyr addysg bellach, hyfforddwyr/aseswyr dysgu seiliedig ar waith a hefyd rai athrawon llanw. Mae 23 o ymarferwyr pellach i fod i gwblhau eu hyfforddiant ym mis Gorffennaf 2009. Prif nod yr hyfforddiant yw gwella sgiliau ieithyddol ymarferwyr i'w galluogi i weithio'n broffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau / ysgolion a ariennir nas cynhelir (gan gynnwys y Mudiad Ysgolion Meithrin)

2.7 Mae cyflwyno'r **Cyfnod Sylfaen i rai rhwng 3 a 7 mlwydd oed** o Fedi 2008 wedi rhoi hwb pwysig o ran hyrwyddo datblygiad dwyieithog plant. Drwy gyflwyno sgiliau iaith yn gynharach yn 3 oed ceir sylfaen gadarn ar gyfer meithrin sgiliau iaith a chyfathrebu. Wrth roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith ar gyfer plant rhwng 3 a 7 mlwydd oed ledled Cymru, mae'n hollbwysig cyfleu negeseuon clir am natur y ddarpariaeth iaith y gallant ddisgwyl ei chael mewn gwahanol leoliadau. Mewn ysgolion a lleoliadau nad ydynt yn cynnig trochi yn y Gymraeg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg, y nod yw sicrhau bod plant yn cael cyfle i glywed, gweld a defnyddio'r Gymraeg yn amlach drwy eu gweithgareddau a'u dysgu pob dydd, a dod yn ddigon cyfarwydd â'r Gymraeg i gymell dysgu pellach ac agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith.

2.8 Drwy ei ddarparu'n llwyddiannus byddai Maes Dysgu 'Datblygu'r Gymraeg' yn gallu cynnig cyfle i blant symud i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar ddechrau addysg statudol. Nod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yw datblygu amrediad llawn o sgiliau dwyieithog ac mae'n rhoi plant ar ben ffordd i ddod yn rhugl. Mae'n bwysig bod rhieni'n deall goblygiadau a chyfleoedd y mathau gwahanol hyn o ddarpariaeth a gynigir yn y Cyfnod Sylfaen.

2.9 Parheir i ddarparu arian hefyd i Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM) i gyflogi swyddog datblygu i weithio yn sector y blynyddoedd cynnar. Mae MYM yn cyflawni swyddogaeth hollbwysig o ran rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith a bydd yn dal i chwarae rhan o bwys wrth ddatblygu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel i blant ifanc. Addysgir y Gymraeg yn awr o fewn cwricwlwm newydd y Cyfnod Sylfaen i blant cyn oed ysgol.

2.10 '**Cam wrth Gam**' yw enw'r hyfforddiant i ymarferwyr cyfrwng Cymraeg y Blynyddoedd Cynnar. Mae 920 o gynorthwywyr ystafell ddosbarth ychwanegol wedi'u hyfforddi i weithio yn sector y blynyddoedd cynnar erbyn mis Mawrth 2010. Roedd 740 wedi'u hyfforddi hyd at ddiwedd Mawrth 2009, sef:

2004/06 – 269
2006/07 – 155
2007/08 – 154
2008/09 – 162.

2.11 Nod '**Geiriau Bach**' yw rhoi sgiliau yn y Gymraeg i ymarferwyr blynyddoedd cynnar, sydd heb fawr ddim Cymraeg, a fydd yn ddefnyddiol ar gyfer gweithio gyda phlant ifanc. Mae'n Dystysgrif Addysg Uwch yn y Gymraeg ac Ymarfer Dwyieithog yn y Blynyddoedd Cynnar (Lefel 4).

2.12 Mae'r prosiect yn gosod y sylfaen ar gyfer ateb arloesol, tymor hir, a fydd yn sicrhau llwybr gyrfu i ymarferwyr cyfrwng Cymraeg, yn sicrhau mynediad at gymwysterau o NVQ lefel 3 i gymwysterau gradd ac ôl-radd drwy weithio mewn

partneriaeth.

2.13 Ers Medi 2008, mae'n ofynnol i bob AALI Iunio **Cynllun Plant a Phobl Ifanc**. Mae'r rhain yn cymryd lle'r Cynlluniau Addysg Sengl blaenorol. Maent yn llai manwl ond eglurwyd mewn canllawiau y bydd angen i awdurdodau gynllunio ar sail tystiolaeth, gan gynnwys honno ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

2.14 Dyma'r canlyniadau allweddol o *Ysgolion yng Nghymru: Ystadegau Cyffredinol 2009*:

Addysg – Canlyniadau Allweddol

Ysgolion cynradd ym mis Ionawr 2009

- Roedd **464 o ysgolion cynradd Cymraeg** (30.7 y cant o'r cyfanswm) ym mis Ionawr 2008 a **54,900 o ddisgyblion** wedi'u cofrestru ganddynt, sef **dwy ysgol yn llai ond 800 o ddisgyblion yn fwy nag yn 2007.**

(O 2008/09 gofynnwyd i ysgolion nodi eu Math Cyfrwng Cymraeg, tra oedd hynny'n cael ei gyfrifo mewn blynyddoedd cyn 2008/09 ar sail gwybodaeth am y math o ddosbarthiadau a ddarparwyd gan bob ysgol. Felly ni ellir cymharu'r ffigurau ar gyfer 2009 yn uniongyrchol â rhai'r blynyddoedd blaenorol.)

- Cododd canran y disgyblion ysgol gynradd a addysgir mewn dosbarthiadau lle defnyddir y Gymraeg fel prif gyfrwng addysgu o **20.6 y cant yn 2008 i 20.8 y cant yn 2009.**
- Bu cynnydd bach yng nghanran y disgyblion a aseswyd mewn **Cymraeg iaith gyntaf** ar ddiwedd **Cyfnod Allweddol 1**, o **20.3 y cant yn 2007 i 21 y cant yn 2008, ac arhosodd ar 21 y cant yn 2009.**
- Gostyngodd canran y disgyblion a aseswyd mewn **Cymraeg iaith gyntaf** ar ddiwedd **Cyfnod Allweddol 2** o **19.8 y cant yn 2008 i 19.1 y cant yn 2009.**

Ysgolion uwchradd ym mis Ionawr 2009

- Addysgwyd Cymraeg fel iaith gyntaf i **16 y cant o'r disgyblion yng ngrwpiau blynyddoedd 7-11** (oedran ysgol gorfodol) mewn ysgolion uwchradd a gynhelir, **i fyny o 15.7 y cant yn 2008.** Addysgwyd **Cymraeg fel ail iaith i 83.1 y cant pellach.**
- Roedd cynnydd bach yng nghanran y disgyblion ym Mlwyddyn 7 yr addysgwyd Cymraeg iaith gyntaf iddynt o **16.5 y cant yn 2008 i 16.8 y cant yn 2009.**
- Roedd gostyngiad bach yng nghanran y disgyblion a aseswyd mewn **Cymraeg iaith gyntaf** ar ddiwedd **Cyfnod Allweddol 3**, o **16 y cant yn 2008 i 15.9 y cant yn 2009**, sydd ychydig yn is na chanran y **disgyblion Blwyddyn 9** y cofnodwyd eu bod wedi astudio **Cymraeg fel iaith gyntaf (16.1 y cant).**

2.15 Rydym yn dal i fuddsoddi symiau sylweddol i gomisiynu adnoddau dysgu Cymraeg a dwyieithog yn yr holl ystodau oedran. Mae Rhaglen Gomisiynu Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi cyllid at gynhyrchu defnyddiau cyfrwng Cymraeg a rhai yn y ddwy iaith i'r ystafell ddosbarth ar gyfer pynciau galwedigaethol ac

academaidd mewn ysgolion ac addysg bellach, o'r Cyfnod Sylfaen at bynciau 14-19. Yn 2009, ychwanegir pynciau newydd at y rhaglen mewn ymateb i'r angen am ddefnyddiau cyfrwng Cymraeg ar gyfer ystod ehangach o bynciau 14-19. Mae'r rhaglen yn rhoi cyllid hefyd ar gyfer adnoddau i ddysgu Cymraeg fel pwnc, gan gynnwys Cymraeg i Oedolion. Mae'r defnyddiau un ai ar gael i'w prynu (ar ffurf llyfrau, cryno ddisgiau, DVDs ac ati) neu maent ar gael am ddim ar-lein drwy GCaD-Cymru.

2.16 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn buddsoddi £2.6 miliwn y flwyddyn tuag at gyhoeddi adnoddau addysgol Cymraeg. Bob blwyddyn, comisiynir mwy na 70 o brosiectau newydd, sy'n arwain at gyhoeddi rhwng 200 a 250 o deitlau'n flynyddol. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys adnoddau printiedig a digidol, yn ogystal â deunyddiau sydd ar gael am ddim ar-lein. Yn ystod 2008/09, roedd gwerthiant gros yr adnoddau oedd ar gael i'w prynu gan ysgolion yn fwy nag £1 filiwn.

2.17 Mae Bagloriaeth Cymru yn cynnig profiadau ehangach na rhaglenni dysgu traddodiadol, i fodloni anghenion amrywiol pobl ifanc. Gellir astudio ar ei chyfer yn Gymraeg neu yn Saesneg, neu drwy'r ddwy iaith gyda'i gilydd. Un o'r pedair elfen graidd yw Cymru, Ewrop a'r Byd, ac mae hyn yn cynnwys modiwl iaith. Gellir defnyddio astudio Cymraeg fel ail iaith i gyflawni'r elfen hon.

2.18 Ar ôl cael gwerthusiad cadarnhaol o gynlluniau treialu, mae Bagloriaeth Cymru yn cael ei chyflwyno yn yr ystod oedran 14-19 ar lefelau Uwch, Canolraddol a Sylfaen. O fis Medi 2009, bydd tua 30,000 o ddysgwyr yn dilyn cyrsiau Bagloriaeth Cymru mewn 169 o ganolfannau ledled Cymru.

Cymwysterau technegol a galwedigaethol

2.19 Caiff y ddarpariaeth dechnegol a galwedigaethol ei chyflwyno a'i hasesu gan ysgolion, colegau addysg bellach a thrwy hyfforddiant seiliedig ar waith. Mae maint y ddarpariaeth sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn cynyddu, er yn araf.

2.20 Parhawyd i roi blaenoriaeth i chwe sector pwysig ar gyfer datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o ran darparu cyllid, adnoddau newydd ar gyfer dysgu ac addysgu a chymwysterau. Y sectorau allweddol hyn yw **Gweinyddu Busnes/TG, Hamdden/Twristiaeth, Astudiaethau Cyfryngau/Celfyddydau Perfformio, Gofal Plant/Blynyddoedd Cynnar, Gofal ac Amaethyddiaeth**. Parheir i ariannu datblygiadau mewn pedair prif ffordd – ar gyfer hyfforddi ymarferwyr, ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth, ar gyfer adnoddau galwedigaethol newydd at ddysgu ac addysgu, ac ar gyfer ehangu'r ystod o gymwysterau galwedigaethol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

2.21 Mae rhestr isod o rai o'r cynlluniau treialu a datblygiadau sy'n cael eu cynnal yn y maes hwn:

- **Hyrwyddwyr Dwyieithog** – Ar ôl ei werthuso, mae'r cynllun treialu wedi'i ymestyn tan Awst 2010 tra ystyrir opsiynau ar gyfer y dyfodol. Y tri choleg Addysg Bellach gwreiddiol sy'n cymryd rhan yw Coleg Llandrillo, Coleg Llysfasi a Choleg Sir Gâr. Mae Coleg Castell-nedd Port Talbot hefyd yn rhan o'r prosiect erbyn hyn, er bod yr amodau ychydig yn wahanol.
- **Partneriaeth Sgiliaith/CYDAG** – Mae'r bartneriaeth yn darparu

gwasanaeth cymorth canolog i Gymru gyfan i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gyfer y sector ôl-16. Roedd y contract gwreiddiol yn parhau tan fis Awst 2009 ac mae contract newydd wedi'i sefydlu tan fis Awst 2010.

- **Cymorth ar gyfer cymwysterau galwedigaethol (VQs) cyfrwng Cymraeg** – Mae cyrff dyfarnu'n gallu cyflwyno ceisiadau i APADGOS am gymorth grant er mwyn darparu cymwysterau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn y ddwy iaith. Er mwyn cael y grantiau, rhaid i gyrff dyfarnu ddangos bod galw am asesu drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn y ddwy iaith, bod ganddynt brosesau dibynadwy ar waith i sicrhau ansawdd, y byddant yn marchnata'r ddarpariaeth ac yn gwarantu asesu drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn y ddwy iaith i ymgeiswyr. Yn ystod 2008-09, cynigiwyd grantiau i chwe chorff dyfarnu ac, o ganlyniad, mae 28 o gymwysterau galwedigaethol pellach ar gael yn awr i ganolfannau ac ymgeiswyr drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn y ddwy iaith, ac mae wyth pellach yn cael eu datblygu. Mae pum cais pellach a gafwyd tua diwedd 2008-09 yn cael eu prosesu ar hyn o bryd, a gallai hyn arwain at ddarparu 13 o gymwysterau galwedigaethol pellach drwy gyfrwng y Gymraeg. Cafwyd bod y rhaglen grantiau'n effeithiol o ran ateb galwadau gan ganolfannau ac ymgeiswyr am asesu cyfrwng Cymraeg a bydd yn parhau yn 2009-10.

2.22 Yn ogystal â chynnig cymorth ariannol i gyrff dyfarnu, mae Cangen Rheoleiddio a Sicrhau Ansawdd Cymwysterau Galwedigaethol APADGOS yn cynnig cyngor ac arweiniad i gyrff dyfarnu ar faterion sy'n ymwneud â chymwysterau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg. Mae'n cynnal dau gyfarfod bob blwyddyn â chyrrff dyfarnu sydd un ai'n cynnig cymwysterau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd neu'n ystyried eu cynnig yn y dyfodol. Mae hyn yn ffordd hwylus i rannu gwybodaeth ac arferion da ac o drafod materion sy'n codi, a bydd yn parhau yn 2009-10.

2.23 Cynhaliodd y Gangen Rheoleiddio a Sicrhau Ansawdd Cymwysterau Galwedigaethol (VQRQA) nifer o ddigwyddiadau i randdeiliaid allanol yn ystod 2008-09 lle bu niferoedd da'n bresennol, i drafod materion sy'n ymwneud â chymwysterau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg neu rai yn y ddwy iaith. Un o'r pwyntiau allweddol a godwyd oedd yr angen am restr gynhwysfawr ganolog o'r holl gymwysterau galwedigaethol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddeuol (hynny yw, mae modd darparu'r cymhwyster mewn cyfuniad o'r Gymraeg a'r Saesneg). O ganlyniad i hyn, cysylltodd y Gangen â phob un o'r cyrff dyfarnu cydnabyddedig i gael gwybodaeth gyfoes am y ddarpariaeth o gymwysterau cyfrwng Cymraeg a rhai yn y ddwy iaith yn ogystal â phwyntiau cyswllt i drafod materion cyfrwng Cymraeg.

2.24 Cafwyd gwybodaeth gan 97.7% o'r cyrff dyfarnu. Mae mwy na 200 o gymwysterau galwedigaethol ar gael yn awr drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn y ddwy iaith, yn amrywio o Lefel Mynediad 1 i Lefel 6, ac yn cwmpasu 12 o sectorau. Bydd rhestr gynhwysfawr sy'n caniatáu i ddefnyddwyr chwilio yn ôl y corff dyfarnu, y lefel a'r sector yn cael ei gosod ar wefan Llywodraeth y Cynulliad a'i dosbarthu'n eang ar ddechrau 2009-10 a chaiff ei diweddarau'n gyson. Bydd y Gangen Rheoleiddio a Sicrhau Ansawdd Cymwysterau Galwedigaethol yn dal i

gasglu barn rhanddeiliaid allanol yn ystod 2009-10.

- **Monitro cymwysterau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg** – Mae'r Gangen Rheoleiddio a Sicrhau Ansawdd Cymwysterau Galwedigaethol yn monitro ansawdd fersiynau cyfrwng Cymraeg o gymwysterau galwedigaethol. Yn ystod 2008-09, penodwyd ymgynghorwyr (ieithydd ac arbenigwyr pwnc) i adolygu cyfieithiadau Cymraeg o gymwysterau galwedigaethol gan ddau gorff dyfarnu. Trafodir materion a ddaeth i'r amlwg â chyrrff dyfarnu er mwyn gwella gwaith yn y dyfodol. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2009-10.
- **Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cyfrwng Cymraeg** – Mae 13 o Gynghorau Sgiliau Sector/Cyrrff Sgiliau Sector wedi cyfieithu setiau o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol i'r Gymraeg. Gosodir rhestr ar wefan Llywodraeth y Cynulliad cyn hir a chaiff ei diweddarau'n gyson. Cynhaliwyd prosiect gan y Gangen Rheoleiddio a Sicrhau Ansawdd Cymwysterau Galwedigaethol i gasglu gwybodaeth am y defnydd o gyfieithiadau Cymraeg o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ac am y buddion a'r gwerth ychwanegol a geir ohonynt a'u heffaith. Hon oedd yr ymgais gyntaf i gasglu gwybodaeth oddi wrth y Cynghorau Sgiliau Sector a rhanddeiliaid eraill ar y mater. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn tanlinellu'r buddion o gael y cyfieithiad Cymraeg o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol penodol, a thynnwyd sylw at amryw fathau o ddefnydd ohonynt. Trafodir y materion a godwyd â phartïon perthnasol yn ystod 2009-10.

2.25 Mae nifer o **Gynghorau Sgiliau Sector** wedi cymryd camau i ddarparu cyfieithiadau Cymraeg o setiau penodol o safonau galwedigaethol cenedlaethol ar gyfer eu sector, e.e. Skillset (Teledu a Darlledu), Sgiliau Gofal, Sgiliau er Cyfiawnder, Skillsmart (Manwerthu), SkillsActive (Chwaraeon), Institute of Customer Service HABIA (Trin gwallt a harddwch) a Gwasanaethau Cyhoeddus.

2.26 Enwyd nifer o Gynghorau Sgiliau Sector ym mis Awst 2008 fel cyrrff sy'n ymgymryd â gwasanaethau o natur gyhoeddus o dan Adran 6(1)(o) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Addysg Uwch

2.27 **Darpariaeth cyfrwng Cymraeg** yw tua **3.1%** o gyfanswm y ddarpariaeth Addysg Uwch. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwmo i wireddu dwyieithrwydd ac mae wedi gosod targed o 7% ar gyfer myfyrwyr sy'n huanu o Gymru sy'n ymgymryd ag o leiaf ran o'u hastudiaethau gradd drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2010.

2.28 Cychwynnodd 11 o ysgoloriaethau i raddedigion a chwech o gymrodoriaethau addysgu yn 2008/09.

2.29 Yn 2008-09 darparwyd mwy na £2.2 miliwn o gyllid i'r **Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg** i hyrwyddo'r Cynllun Datblygu Cenedlaethol ar gyfer darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg.

Mae ymrwymiad yn *Cymru'n Un* ar gyfer Rhwydwaith Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg – **Coleg Ffederal** – Ym mis Gorffennaf 2008, estynodd y Gweinidog dros

Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wahoddiad i'r Athro Robin Williams i gadeirio Bwrdd Cynllunio'r Coleg Ffederal annibynnol a pharatoi adroddiad ar fodel arfaethedig ar gyfer Coleg Ffederal, a fyddai'n adeiladu ar sail y cynllun datblygu cenedlaethol, gan weithio drwy sector addysg uwch Cymru ac ar y cyd ag ef. Cyflwynwyd adroddiad terfynol yr Athro Williams ym mis Mehefin 2009.

Dysgu a'r System Gyfiawnder

2.30 Mae'r gwaith ar Ddysgu a'r System Gyfiawnder (dan arweiniad APADGOS) wedi cynnwys amryw o weithgareddau sy'n ymwneud ag anghenion neilltuol siaradwyr Cymraeg a phobl ifanc o Gymru sydd yn y system gyfiawnder.

Cymraeg i Oedolion

2.31 Mae *laith Pawb* yn rhwymo Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu dull cydgysylltiedig o drafod Cymraeg i Oedolion. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio i gyflawni ei chyfrifoldebau o dan *laith Pawb* mewn modd systematig sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth.

2.32 Cymraeg i Oedolion yw un o'r rhaglenni dysgu mwyaf i oedolion yng Nghymru, gyda 17,570 o ddysgwyr a 24,955 o gofrestrïadau yn 2007/08. Mae amrywiaeth eang o gyrsiau ar gael, o ddsbarthiadau nos wythnosol i gyrsiau dwysach a chyrsiau yn y gweithle. Mae cyrsiau ar-lein hefyd, yn ogystal ag ysgolion haf ac ysgolion Sadwrn.

2.33 Ym mis Awst 2008, neilltuodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau £6.7 miliwn o gyllid grant pellach i gynnal y chwe **chanolfan Cymraeg i Oedolion** benodedig sydd ym Mhrifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Morgannwg a Choleg Gwent ar gyfer y cyfnod rhwng Awst 2008 a Gorffennaf 2011.

2.34 Mae amryw o adnoddau i ddysgwyr a thiworiaid Cymraeg wedi'u hariannu ar gyfer eu datblygu gan Lywodraeth y Cynulliad. Dau brosiect a gomisiynwyd yn ddiweddar yw:

- (i) adnoddau ar gyfer Dysgu fel Teulu a fydd yn galluogi rhieni i ddysgu gyda'u plant ac a fydd yn cysylltu â chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Os bydd y cynllun treialu'n llwyddo, byddwn yn ceisio datblygu'r Cynllun;
- (ii) canllawiau ar gyfer trefnu hyfforddiant Cymraeg yn y gweithle a fydd yn sicrhau bod cyrff yn cynllunio hyfforddiant mwy effeithiol ac a fydd yn tynnu sylw at yr angen i gyrff gymryd camau i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. Datblygwyd y Canllawiau yn 2009 mewn partneriaeth â Bwrdd yr Iaith.

2.35 Mae gwell hyfforddiant i diwtoriaid yn ymrwymiad allweddol yn *laith Pawb*. Cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad gynhadledd ym mis Tachwedd 2008 yng Nghasnewydd, a ddenodd 160 o diwtoriaid Oedolion o bob rhan o Gymru, i rannu gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf ym maes Cymraeg i Oedolion, i ddarparu hyfforddiant ar ddefnyddio adnoddau newydd sydd ar gael i diwtoriaid, ac ar wahanol fethodolegau addysgu.

2.36 Parheir i ariannu cyfres o bum arholiad Cymraeg i Oedolion yn CBAC. Cyrsiau

sy'n briodol i'r pum lefel iaith yw sylfaen y ddarpariaeth. Mae llawer o ddysgwyr Cymraeg yn cytuno bod arholiadau CBAC yn fodd da i fonitro eu cynnydd a'u bod yn offeryn defnyddiol at adolygu. Mae'r arholiadau hyn yn rhoi prawf ar yr holl sgiliau iaith, ond mae'r prif bwyslais ar siarad a gwrando, fel y mae yn y cyrsiau eu hunain.

2.37 Gweithiodd Llywodraeth y Cynulliad mewn partneriaeth â'r canolfannau a rhanddeiliaid allanol eraill yn 2007 i weithredu'r ymgyrch farchnata genedlaethol gyntaf i hyrwyddo Cymraeg i Oedolion. Cynhelir ymgyrch farchnata genedlaethol bob blwyddyn yn awr i ddenu dysgwyr newydd a hybu ymwybyddiaeth o'r manteision o ddysgu Cymraeg. Ategir hyn gan weithgarwch rhanbarthol a gyflawnir gan y Canolfannau.

Cyhoeddir yr adroddiad terfynol ar werthusiad tair blynedd o'r rhaglen Cymraeg i Oedolion yn 2010, a rhoddir ystyriaeth i argymhellion ac, os cânt eu cymeradwyo, gweithredir arnynt yn y dyfodol.

2.38 Mae *Cymru'n Un* yn rhwymo Llywodraeth y Cynulliad i ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu Uned Cymraeg i Oedolion a ariennir yn ddigonol, gan roi blaenoriaeth i addysg diwtora. Mae nifer o opsiynau wedi'u hystyried, a chafwyd penderfyniad gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ym mis Ebrill 2008 i barhau â'r sefyllfa bresennol, lle mae'r chwe chanolfan Cymraeg i Oedolion yn gyfrifol am gynllunio a chyflenwi darpariaeth yn lleol, a'r tîm Cymraeg i Oedolion yn APADGOS yn gyfrifol am y rôl gydgyssylltu genedlaethol. Mae cynigion i ddatblygu'r rhaglen Cymraeg i Oedolion ymhellach drwy'r chwe chanolfan wedi'u cynnwys yn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ddrafft Llywodraeth y Cynulliad. Drwy gynnwys Cymraeg i Oedolion yn y Strategaeth ddrafft, sicrhewir y bydd cysylltiadau perthnasol â datblygiadau eraill sy'n ymwneud â datblygu darpariaeth Gymraeg a chyfrwng Cymraeg.

3. Cymunedau

Rydym yn ystyried bod diogelu a hyrwyddo hawl pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, i gael mynediad at wasanaethau ac i chwarae rhan lawn ym mywyd dinesig a diwylliannol eu cymunedau, yn elfen bwysig wrth sefydlu cyfiawnder cymdeithasol.

Prif ffrydio drwy waith Llywodraeth y Cynulliad â chymunedau

3.1 Mae rhan bwysig i'w chwarae gan y **trydydd sector (neu'r sector gwirfoddol)** wrth hybu'r defnydd o'r iaith ar lefel gymunedol. Lle mae cyrff y trydydd sector yn cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, mae'n debygol y bydd Deddf yr Iaith Gymraeg yn gymwys ond, lle nad yw darparu gwasanaethau dwyieithog yn ofyniad statudol, mae llawer o gyrff y trydydd sector yn gwneud ymrwymiad cadarn drwy fabwysiadu cynlluniau iaith Gymraeg gwirfoddol.

3.2 Rydym yn dymuno hyrwyddo'r dull gweithredu hwn drwy gydweithio'n strategol â'r sector a Bwrdd yr Iaith drwy gompact rhwng Llywodraeth y Cynulliad, Bwrdd yr Iaith a'r trydydd sector. Mae grŵp o randdeiliaid o bob un o'r tri pharti wedi'i ffurfio i lywio'r gwaith hwn.

3.3 Daeth yr ymgynghori ar y compact drafft i ben ym mis Ionawr 2009. Mae rhanddeiliaid ar hyn o bryd yn ymgorffori'r ymatebion a gafwyd yn y ddogfen derfynol

y bwriedir ei lansio yn ystod hydref 2009. Ers hynny, mae'r holl bartïon wedi cytuno y dylid gohirio lansio'r compact wrth ddisgwyl y Gorchymyn Cymhwyster Deddfwriaethol arfaethedig ynglŷn â'r Gymraeg. Yn ogystal â hynny, mae Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn diweddarau Côt Ymarfer Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector er mwyn rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

3.4 Mae'r **Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid** (Mehffin 2008) yn cyflwyno gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer cynnwys ffoaduriaid yng Nghymru. Nod cyffredinol y strategaeth gynnwys yw helpu a galluogi ffoaduriaid i ailddechrau byw yng Nghymru a chyfrannu'n llawn i gymdeithas. Mae'r strategaeth yn cydnabod yr angen i ffoaduriaid a cheiswyr lloches gael cyfle i ddatblygu eu sgiliau iaith Saesneg a/neu Gymraeg.

3.5 Ymgynghorwyd ar y **Cynllun Cydraddoldeb Sengl** yn 2008-09 ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2009. Mae'n dangos sut byddwn yn hyrwyddo cydraddoldeb a sut byddwn yn cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb statudol (anabledd, hil a rhywedd), a sut byddwn yn cymhwyso'r un egwyddorion cyffredinol at y meysydd cydraddoldeb newydd.

3.6 Mae'r Cynllun yn edrych ar y modd yr ydym yn asesu effaith ein gwaith ar wahanol grwpiau a'r camau y byddwn yn eu cymryd i ddelio â'r effaith honno dros y tair blynedd nesaf. Bydd yn ceisio sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb a hawliau dynol wedi'u gwreiddio'n gadarn yng ngwaith a diwylliant ein sefydliad. Yn ogystal â'n rhwymedigaethau o dan ein Cynllun Iaith Gymraeg, rydym yn bwriadu rhoi ystyriaeth lawn i faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg i'r graddau eu bod yn berthnasol i'n rhwymedigaethau o ran cydraddoldeb a hawliau dynol.

Gwaith gan Fwrdd yr Iaith ar lefel gymunedol

3.7 Bwriad Bwrdd yr Iaith wrth roi cymorth ariannol i'r Mentrau Iaith, Cynlluniau Gweithredu Iaith a phrosiectau eraill yn y gymuned yw hyrwyddo ymdrechion i gynnal yr iaith ar lefel gymunedol. Yn ystod 2008-09 darparodd y Bwrdd £1.4 miliwn o gyllid grant i'r **Mentrau Iaith**.

3.8 Mae **Cynlluniau Gweithredu Iaith** yn ceisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn meysydd sydd o arwyddocâd ieithyddol arbennig drwy gydgyssylltu gweithgareddau ar gyfer pobl a sefydliadau lleol.

3.9 Mae'r Mentrau Iaith a'r Cynlluniau Gweithredu Iaith yn gweithio mewn partneriaeth â chyrrff a rhanddeiliaid lleol a chenedlaethol ar wahanol brosiectau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Cynllunio

3.10 Mae **Polisi Cynllunio Cymru (2002)** yn datgan y dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg wrth baratoi cynlluniau datblygu. Dylai awdurdodau cynllunio lleol hefyd ystyried sut mae polisiau sy'n ymwneud â'r iaith yn rhyngweithio â chynlluniau eraill. Mae Polisi Cynllunio Cymru wedi'i ategu gan **Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20** – Yr Iaith Gymraeg, Cynlluniau Datblygu Unedol a Rheoli Cynllunio, sy'n rhoi canllawiau manwl pellach ar y Gymraeg mewn

cysylltiad â chynlluniau datblygu a cheisiadau cynllunio. Mae ymrwymiad i adolygu Nodyn Cyngor Technegol 20 wedi'i gynnwys yn *Cymru'n Un*.

3.11 Bydd Rhaglen Ddatblygu Polisi Cynllunio Cymru 2010/11 yn cynnwys ymrwymiad i ymgymryd ag ymchwil o'r enw 'Asesu'r Effaith o ran Cymunedau Cynaliadwy'. Bydd y prosiect yn asesu effeithiau cymdeithasol datblygiadau newydd, gan gynnwys eu goblygiadau i'r Gymraeg. Bydd y canfyddiadau o gymorth wrth adolygu Nodyn Cyngor Technegol 20.

4. Yr Economi

4.1 Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn disgrifio gweithgarwch yn y maes hwn, gan dynnu sylw at y cysylltiadau rhwng yr economi a'r iaith. Mae hybu twf busnesau a hyrwyddo mentergarwch yn agweddau pwysig ar gynnal a datblygu cymunedau Cymraeg.

4.2 Er mwyn sicrhau bod yr iaith wedi'i phrif ffrydio yn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth fel thema drawsbynciol ym mhob rhan o'r broses cynllunio busnes, mae'n ofynnol ar hyn o bryd i bob maes rhaglenni gwariant bennu blaenoriaethau mesuradwy mewn cysylltiad â'r Gymraeg i'w gweithredu yn ystod oes y cynllun busnes.

4.3 Mae'r **Gr• p Economi-Iaith Gymraeg** yn gweithio i hybu dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng iaith a'r economi ac i ddynodi a hyrwyddo'r cyfleoedd economaidd y mae'r iaith yn eu cynnig. Mae rhaglen waith y Gr• p yn rhoi blaenoriaeth i sectorau economaidd penodol, ar sail ymchwil a gomisiynwyd i ddynodi'r sectorau hynny sy'n cynnig y cyfleoedd economaidd gorau lle mae modd i'r iaith ychwanegu gwerth.

4.4 Yn ystod 2008-09, sefydlodd y Gr• p is-grwpiau marchnata ac ymchwil er mwyn sicrhau bod negeseuon cyffredin am fuddion economaidd yr iaith yn cael eu rhannu rhwng cyrff ac er mwyn canolbwyntio ar ystyried anghenion ymchwil ar gyfer y dyfodol. Ar ôl cynnal digwyddiad llwyddiannus wedi'i seilio ar berfformio ar gyfer cynulleidfa o bobl fusnes yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd ym mis Awst 2008, cynhwyswyd gwobr debyg a oedd yn werth £5,000 yn y rhaglen ar gyfer Eisteddfod 2009 yn y Bala, ar gyfer gwireddu syniad busnes newydd gan egin-entrepreneuriaid, wedi'i seilio ar gysyniad 'Dragon's Den'. Ymhlith yr uchafbwyntiau eraill y mae ymarferiad rhag-weld, lle bydd rhanddeiliaid allweddol yn cwrdd i ystyried y rhagolygon ar gyfer yr iaith a'r economi erbyn 2020.

Menter

4.5 Mae'r gwasanaeth dechrau busnes **Cymorth Hyblyg i Fusnes (FS4B)** a gwefan **GwerthwchiGymru / Sell2Wales** wedi datblygu gwasanaeth mewn partneriaeth â Bwrdd yr Iaith i annog defnyddwyr yn y sector cyhoeddus ar PrynwchiGymru / Buy4Wales i hysbysebu cyfleoedd i dendro drwy gyfrwng y Gymraeg. Y bwriad yw annog busnesau yng Nghymru i ymddiddori mewn tendro drwy gyfrwng y Gymraeg a darparu mwy o'u gwasanaethau yn Gymraeg. Ers Tachwedd 2008, mae cyflenwyr wedi gallu cyflwyno eu manylion a'u dyfynbrisiau yn eu dewis iaith, h.y. yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer gwefan GwerthwchiGymru yn dangos bod 5% o ddefnyddwyr wedi cyhoeddi eu hysbysiadau'n ddwyieithog neu yn Gymraeg yn unig yn ystod

2008/09.

4.6 Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn darparu cymorth i **Menter a Busnes** i hybu camau i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg mewn busnes. Datblygwyd y cysyniad o Ddigwyddiadau Gwibrwydweithio ar ran Menter a Busnes gan **Cwlwm Busnes** (rhwydwaith o fusnesau cyfrwng Cymraeg a gafodd eu 'recriwtio' gan Menter a Busnes). Mae'r Digwyddiadau Gwibrwydweithio wedi'u seilio ar egwyddor 'speed dating', gan gynnig cyfle delfrydol i fusnesau gwrdd wyneb yn wyneb i rwydweithio a chreu partneriaethau newydd.

4.7 Mae **Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymorth Hyblyg i Fusnes** hefyd yn gweithredu polisi Cymraeg ar gyfer ei Ganolfan Gyswllt a'i Ganolfannau Rhanbarthol ac mae'r holl systemau monitro, e.e. negeseuon llais, ar gael yn ddwyieithog ochr yn ochr â gwefan Cymorth Hyblyg i Fusnes. Mae tua un rhan o dair o staff y Ganolfan Gyswllt yn siarad Cymraeg er mwyn sicrhau bod cleientiaid Cymraeg yn gallu cael mynediad at y gwasanaeth yn eu dewis iaith.

4.8 Mae'r Tîm Addysg Fenter yn rheoli rhwydwaith amrywiol o **Fodelau Rôl Dynamo** (entrepreneuriaid neu berchnogion busnesau lleol) i roi cyflwyniadau i ysbrydoli myfyrwyr ym mlynnyddoedd 9 a 12, drwy eu hannog i feddwl yn wahanol am eu dyfodol, ac i ystyried cyfleoedd entrepreneuriaidd. Er mwyn cael Modelau Rôl Dynamo Cymraeg yn y rhwydwaith, cymerir camau i recriwtio drwy gysylltiadau mewn busnesau cyfrwng Cymraeg.

Adfywio

4.9 Ym mis Hydref 2008, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros Adfywio gyfeiriad a gweledigaeth newydd ar gyfer adfywio yn ei *Ddatganiad ar Adfywio Strategol*. Gan adeiladu ar sail yr ymrwymadau yn *Cymru'n Un* a'r prosiectau enghreifftiol ym Mlaenau'r Cymoedd a Môn a Menai, bydd y strategaeth newydd yn darparu dull adfywio sy'n fwy strategol, hirdymor a chyfannol sy'n rhoi sylw i anghenion pobl a chymunedau o ran sgiliau a chyflogadwyedd ochr yn ochr â gwelliannau ffisegol ac amgylcheddol.

4.10 Bydd y dull adfywio hwn yn canolbwyntio ar fuddsoddi mewn pobl a lleoedd mewn **Ardaloedd Adfywio Strategol** dros gyfnod penodedig. Yn ogystal â'r Rhaglenni sydd wedi'u sefydlu ym Mlaenau'r Cymoedd a Môn a Menai, cafwyd cyhoeddiadau (hyd at ddiwedd y cyfnod adrodd) ynghylch Ardaloedd Adfywio Strategol ar gyfer Arfordir y Gogledd, y Cymoedd Gorllewinol a Chanol Dinas Abertawe. Mae rôl a chyfraniad y Gymraeg o ran hybu adfywio yn yr Ardaloedd Adfywio Strategol wedi'u hintegreiddio'n llawn â phroses cynlluniau gweithredu'r Ardaloedd Adfywio Strategol.

4.11 Yn ystod 2008, cafwyd cyhoeddiad hefyd gan y Dirprwy Weinidog dros Adfywio am fentrau pilot ym Mhenrhyn Llŷn a Gogledd Meirionnydd er mwyn hyrwyddo rhaglen ehangach sy'n datblygu rôl y Gymraeg wrth hybu adfywio. Y nod yw sicrhau bod gweithgareddau adfywio allweddol yn cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol Cymru ac yn hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant drwy greu a chynnal cymunedau bywiog lle gall pobl ifanc aros a mwynhau ansawdd bywyd da.

Cyllid Ewropeaidd

4.12 Mae **Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)** yn gyfrifol am weinyddu Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru a chymeradwyo ceisiadau gan brosiectau am gyllid. Mae'r ddogfennaeth berthnasol ar gyfer pob Rhaglen yn nodi bod yr holl ffrydiau ariannu'n cynnwys ystyriaethau ieithyddol.

4.13 Mae blaenoriaethau sydd wedi'u pennu ar gyfer Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yn canolbwyntio ar ddarpariaeth Gymraeg ac anghenion cymunedau dwyieithog. Er enghraifft, mae £1.2 miliwn o gyllid Cydgyfeirio wedi'i neilltuo i **brosiect Nant Gwrtheyrn**, sy'n werth £4.2 miliwn, er mwyn creu porth diwylliannol i ddysgwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd gyda'r bwriad iddo ddod yn ganolfan breswyl ansawdd uchel o safon ryngwladol ar gyfer addysgu'r Gymraeg.

4.14 Mae'r broses arfarnu ar gyfer ceisiadau gan brosiectau'n cynnwys ystyriaeth i faterion sy'n ymwneud â phrif ffrydio cydraddoldeb, gan gynnwys y Gymraeg. Mae timau arfarnu Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi cael hyfforddiant priodol, gan gynnwys sut i ganfod a yw ceisiadau'n ymdrin â'r themâu trawsbynciol ai peidio, a hynny'n cynnwys materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Yn ogystal â hynny, gellir cyfeirio ceisiadau i sylw'r Uned Themâu Trawsbynciol yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru er mwyn ystyried materion sy'n ymwneud â chydaddoldeb yn fanylach.

4.15 Cesglir data, fel rhan o strwythur cofnodi newydd y Cronfeydd Strwythurol, ar y defnydd o'r ddarpariaeth Gymraeg gan gyfranogwyr y rhaglenni.

Astudiaethau Achos Adran yr Economi a Thrafnidiaeth

Yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst 2008, cafwyd cyhoeddiad gan y Dirprwy Weinidog dros Adfywio am becyn ariannu o £1 filiwn ar gyfer amryw o fentrau peilot i ddatblygu rôl y Gymraeg o ran hybu a hyrwyddo gweithgareddau adfywio penodol yn Llŷn a gogledd Meirionnydd er mwyn hyrwyddo rhaglen ehangach sy'n datblygu rôl y Gymraeg wrth hybu adfywio. Roedd y rhain yn cynnwys prosiect broceriaeth i feithrin hyder a galluoedd siaradwyr Cymraeg wrth iddynt baratoi i ddod yn rhan o'r farchnad swyddi.

Lansiwyd cynllun treialu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan gwmnïau sector preifat yn ne-orllewin Cymru. O ganlyniad i gydweithredu rhwng Adran yr Economi a Thrafnidiaeth a Bwrdd yr Iaith, mae Rheolwyr Cysylltiadau Busnes yn treialu templedi ac offer polisi iaith gyda thrawstoriad o gwmnïau lleol yn y lle cyntaf.

Mae Canolfan Nant Gwrtheyrn yn y gogledd-orllewin yn paratoi ar gyfer gwaith gweddnewid sy'n werth £4.2 miliwn, diolch i fuddsoddiad o £1.2 miliwn o arian Cydgyfeirio, a fydd yn helpu i greu bron 30 o swyddi a chreu porth diwylliannol i ddysgwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Cafwyd cynnydd da yn ystod y flwyddyn ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a'i hamlygrwydd gan gwmnïau teithio yng Nghymru ym mhob un o'r moddau trafndiaeth gyhoeddus, a chan **Traveline Cymru**, sy'n darparu gwasanaeth dwyieithog ar gyfer ymholiadau am drafndiaeth gyhoeddus dros y ffôn ac ar y we. Mae cyhoeddiadau Cymraeg a dwyieithog wedi'u defnyddio'n eang i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan gwmnïau teithio yng Nghymru.

5. Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5.1 Mae **darparu dwyieithog** yn rhan annatod o'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau iechyd a chymdeithasol o ansawdd uchel. Mae'r gallu i gyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau yn eu dewis iaith yn gallu gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn ansawdd y gofal. Yn achos y rhai sy'n fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, gellir ystyried bod hyn yn anghenraid. Er enghraifft, i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, mae'r boen a'r aflonyddwch a achosir gan afiechyd meddwl yn gallu bod yn waeth os na chaiff y claf gyfle i drafod ei broblemau yn ei ddewis iaith. Hefyd, bydd nifer o hen bobl yn mynd yn ôl i ddefnyddio'u mamiaith yn unig, yn enwedig ar ôl cael strôc neu yn ystod cyfnod o ddementia. Mae llawer o blant ifanc mewn rhai rhannau o Gymru yn siaradwyr Cymraeg uniaith yn ystod eu blynyddoedd cynnar. Felly, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i barhau i ddatblygu darpariaeth ddwyieithog mewn gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

5.2 Mae **Uned iaith Gymraeg y GIG** yn monitro polisiâu a materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg o fewn GIG Cymru. Mae'r Uned yn hybu statws a phwysigrwydd materion iaith, ac ymwybyddiaeth ohonynt, o fewn yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r tu allan iddi gyda darparwyr gofal iechyd a'u partneriaid mewn addysg bellach ac uwch.

5.3 Cyfarfu Tasglu'r Gymraeg mewn Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol dair gwaith yn 2008-09, gan ystyried nifer o faterion, fel y rhai canlynol:

- cynllunio'r gweithlu;
- cydweithio â'r Arolygiaethau i lunio pecyn offer Cymraeg i hwyluso eu rolau arolygu;
- helpu i bennu blaenoriaethau a chynlluniau gwaith ar gyfer y swyddogion iaith Gymraeg yn yr Ymddiriedolaethau a'r unedau iaith Gymraeg rhanbarthol yn y Byrddau Iechyd Lleol.

5.4 Cytunodd aelodau i ehangu ei gylch gwaith i gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, er mwyn adlewyrchu'r berthynas agos sydd rhwng y ddau sector wrth ddarparu gwasanaethau gofal. Penderfynwyd ar raglen waith y Tasglu ym mis Ebrill 2008, i ganolbwyntio ar y canlynol:

- (a) Cryfhau'r gwasanaeth Cymraeg i ddefnyddwyr (Gwasanaethau);
- (b) Cryfhau cyfraniad dylanwadol y cyrff arweiniol (Arwain);
- (c) Cryfhau gallu ac arferion dwyieithog y gweithlu (Gweithlu);
- (ch) Cryfhau trefniadau sefydliadol ac ategol (Hwyluso).

5.5 Mae'r Tasglu o dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a gyflwynodd ddatganiad i'r Cynulliad am y Tasglu a'i waith ar 24 Chwefror 2009. Yn y datganiad, tynnwyd sylw at rai o'r datblygiadau yng ngwaith y Tasglu a chadarnhawyd y bydd capasiti presennol y swyddogion iaith Gymraeg yn y GIG yng Nghymru'n cael ei ddiogelu ac na fydd y diwygiadau yn y GIG yn effeithio'n anffafriol arno. Gellir gweld y datganiad yn:

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-chamber/bus-chamber-third-assembly-rop.htm?act=dis&id=118134&ds=2/2009>

Mae bron bob un o Ymddiriedolaethau'r GIG (7 allan o 9) wedi penodi Swyddog Iaith Gymraeg ac mae Unedau Iaith Gymraeg rhanbarthol i'r Byrddau Iechyd Lleol wedi'u sefydlu yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru ac yn Ne-ddwyrain Cymru.

5.6 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dal i gynnal **Cynhadledd a Gwobrau'r Gymraeg mewn Gofal Iechyd** bob blwyddyn. Cynhaliwyd y chweched seremoni wobrwyo yng Nghaerdydd ym mis Mai 2008 lle cafwyd 40 o enwebiadau, ac enillwyd gwobrau gan gyfanswm o 12 o unigolion a chyrrff mewn saith categori. Cynigiwyd gwobrau ariannol a oedd yn dod i £1,000 yr un, gyda'r bwriad o hyrwyddo defnydd ehangach o'r Gymraeg drwy ailfuddsoddi arian y gwobrau mewn gwasanaethau Cymraeg. Roedd y beirniaid yn fodlon iawn ar y cynnydd a wneir gan weithwyr gofal iechyd ac roeddent yn neilltuol o falch bod cynifer o staff gwasanaethau iechyd a Chymdeithasol yn dysgu Cymraeg, er mwyn cynnig mwy o ddewis a gwell gwasanaethau i gleifion a'u teuluoedd.

5.7 Thema cynhadledd 2008 oedd '**Dysgu oddi wrth Eraill**', a chafodd y cynrychiolwyr a oedd yno gyfle i ddysgu gan gynrychiolwyr o Bwyllgor Arbenigwyr Cyngor Ewrop am Siarter Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol Ewrop, a sut y gellir gwella gwasanaethau iechyd a chymdeithasol er mwyn cyflawni'r cymal perthnasol yn y Siarter. Cafodd cynrychiolwyr gyfle hefyd i glywed siaradwyr o wledydd tramor yn disgrifio darpariaethau iaith mewn systemau iechyd sy'n gweithredu yng Ngwlad Belg, Catalonia a Chanada, gwledydd sy'n wynebu heriau tebyg i rai Cymru wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol dwyieithog.

Gellir gweld yr adroddiad am y gynhadledd a'r gwobrau yn:

<http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/415/Cynhadledd%20a%20Gwobrau%27r%20Gymraeg%20mewn%20Gofal%20Iechyd%202008%20%2D%20Adroddiad%20FINAL2.pdf>

6. Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg

6.1 Er mwyn i'r Gymraeg ffynnu fel iaith fyw, mae'n hollbwysig bod pobl yn gallu defnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar eu bywyd pob dydd, a'u bod yn gwneud hynny. Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn rhoi trosolwg ar y gweithgareddau a gyflawnwyd gan Fwrdd yr Iaith ar ran Llywodraeth y Cynulliad, ac eraill, gyda'r bwriad o hyrwyddo a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

6.2 Mae Adolygiad Blynyddol y Bwrdd ar gyfer 2008-09 yn rhoi mwy o fanylion am ei weithgareddau yn ystod y flwyddyn. Gellir ei weld drwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

<http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Pages/PublicationItem.aspx?puburl=/Cymraeg%2fcyhoeddiadau%2fCyhoeddiadau%2f20090818+GC+D+Adolygiad+Blynyddol+Fersiwn+y+Wefan.pdf>

6.3 Parhaodd ymgyrch BYIG i farchnata gwasanaethau Cymraeg o'r enw '**Mae Gen ti Ddewis...**' yn 2008-09. Mae tri chorff wedi cwblhau ymgyrchoedd 'Mae Gen ti

Ddewis' hyd yn hyn, ac mae tri chorff pellach yn paratoi ymgyrchoedd i'w lansio yn chwarter cyntaf 2009-10. Penodwyd asiant ym mis Hydref ac mae'r gwaith o ailddylunio'r ymgyrch wedi'i gwblhau. Bydd pecyn cymorth ar gael i gyrff i gyd-fynd â'r ymgyrch o fis Ebrill 2009.

6.4 Yn ogystal â hyn, lansiodd ymgyrch farchnata gyffredinol o'r enw 'Mae Gen Ti Ddewis'. Roedd y ffigurau gwyllo o fis Mai 2009 ymlaen yn dangos bod 879,000 o bobl wedi gwyllo'r hysbyseb deledu, 123,000 wedi gweld hysbyseb mewn sinemâu a 3,729 wedi gweld hysbyseb electronig. Mae 294 o bobl wedi gwyllo'r hysbyseb ar sianel y Bwrdd ar YouTube, ac mae 857 o bobl wedi ymuno â grŵp 'Mae Gen Ti Ddewis' ar Facebook.

Bwrdd yr Iaith a'r Sector Preifat

6.5 Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector preifat wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, gyda chymorth yr ymgysylltu adeiladol â busnesau gan Fwrdd yr Iaith.

6.6 Yn 2008-09, fe wnaeth y Bwrdd ddatblygu a lansio **templed polisi iaith** i'w ddefnyddio gan fusnesau. Mae'r Bwrdd yn cynorthwyo'r rhai sy'n defnyddio'r templed drwy gynnig cyngor ar ddrafftio polisi iaith. Drwy fabwysiadu polisi, mae busnesau'n gallu dweud wrth eu cwsmeriaid a'u staff beth maent yn ei wneud yn Gymraeg eisoes. Mae'r broses polisi iaith yn darparu fframwaith hefyd ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg dros amser – mae hyn yn neilltuo'l o ddefnyddiol i reolwyr a allai fod heb unrhyw brofiad blaenorol o ddwyieithrwydd yng nghyd-destun busnes.

6.7 Datblygwyd cynllun gan y Bwrdd hefyd i dynnu sylw at y nifer mawr o fusnesau sydd eisoes yn defnyddio'r Gymraeg. Mae **'Cefnogi'r Gymraeg'** yn gwahodd busnesau i ymgymryd â 10 ymrwymiad syml, sy'n cwmpasu meysydd cyffredin fel gohebu yn Gymraeg a gwasanaethau cwsmeriaid.

6.8 Parhaodd y Bwrdd i hyrwyddo ei gynllun **Iaith Gwaith** sefydledig, drwy gynnal taith farchnata ym mis Tachwedd 2008, a ymwelodd ag 20 o leoliadau manwerthu ledled Cymru. Mae cynllun Iaith Gwaith yn helpu cwsmeriaid i adnabod staff Cymraeg yn rhwydd.

6.9 Parhaodd y Bwrdd hefyd â'r gwaith canlynol:

- cynnig **cyngor ac arweiniad** i fusnesau ar eu defnydd o'r Gymraeg;
- darparu **grantiau i fusnesau** sy'n dymuno cynhyrchu deunydd dwyieithog;
- darparu gwasanaethau cyfieithu a phrawfddarllen sylfaenol am ddim drwy ei fenter **Llinell Gyswllt**;
- noddi **digwyddiadau a gwobrau busnes** i hyrwyddo a chydabod arferion da.

6.10 Cyhoeddodd y Bwrdd ddogfen o'r enw *Promoting and Facilitating Bilingual Workplaces* ar gyfer gweithleoedd, yn egluro ac yn cynghori ar sut i fynd ati i gynnal rhagor o'u gweinyddu mewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Lansiodd y ddogfen gan y Gweinidog dros Dreftadaeth mewn seminar ym mis Ionawr 2009.

6.11 Mae'r Bwrdd yn dal i ymestyn ei gyrhaeddiad yn y sector preifat drwy weithio mewn partneriaeth ag eraill. Ymhlith y rhain mae cyrff busnes fel Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a Sefydliad Siartredig Marchnata, yn ogystal â chyrff cyhoeddus

fel Croeso Cymru, y rhwydwaith Cymorth Hyblyg i Fusnes, a'r chwe chanolfan Cymraeg i Oedolion.

Bwrdd yr Iaith - astudiaethau achos o'r arferion gorau yn y sector preifat

- Mae gan y Bwrdd berthynas gref â Tesco ac wedi bod yn cydweithio â hwyers cyfnod, yn arbennig ar eu defnydd o arwyddion ac ar eu tiliau hunanwasanaeth Cymraeg. Eleni, wrth iddynt gyflwyno tiliau hunanwasanaeth yng Nghymru, fe wnaethpwyd hynny yn ddwyieithog ac erbyn hyn mae pob til hunanwasanaeth yng Nghymru yn cynnig dewis iaith.
- Cynghori John Lewis ar eu defnydd o'r Gymraeg yn eu siop gyntaf yng Nghymru. Bu cyffro mawr pan gyhoeddwyd y byddai'r manwerthwr hwn yn ganolbwynt i ddatblygiad Dewi Sant 2 yng Nghaerdydd. Fe'u targedwyd hwy gan y Bwrdd ac fe roeddent yn frwdfrydig iawn i gyflwyno'r Gymraeg i'w busnes trwy gyfrwng arwyddion, deunyddiau marchnata a hysbysebu, gan esbonio eu bod am integreiddio i'r gymuned ac am i bobl Cymru deimlo perchnogaeth ar y siop.
- Cynhyrchu trydydd argraffiad o'i Ganllaw Dylunio Dwyieithog. Bu'r Bwrdd yn cynhyrchu'r cyhoeddiad hwn ers dros ddeng mlynedd. Mae'r canllaw yn cynghori busnesau a sefydliadau eraill ar sut i gynhyrchu deunyddiau, arwyddion a chyhoeddiadau yn ddwyieithog. Eleni, fe ailwampwyd y cyhoeddiad i gynnwys adrannau estynedig ar wefannau a meddalwedd dwyieithog.

Bwrdd yr Iaith a'r Sector Gwirfoddol (y Trydydd Sector)

6.12 Mae cyfraniad y trydydd sector yn hollbwysig i'n hamcan o weld darparu mwy o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

6.13 I'r diben hwn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gofyn i Fwrdd yr Iaith ddatblygu ei waith gyda'r sector. Lansiodd y Bwrdd ei Strategaeth Sector Gwirfoddol ym mis Ionawr 2008, ac ers hynny mae wedi meithrin perthynas â mwy na 125 o gyrff yn y trydydd sector sy'n dymuno datblygu eu darpariaeth ddwyieithog. Mae'r Strategaeth wedi rhoi strwythur clir i gyrff fel y gallant ddeall sut gall y Bwrdd eu helpu i ddatblygu eu gwasanaethau Cymraeg.

6.14 Yn 2008-09, cafodd 22 o gynlluniau iaith Gymraeg newydd a diwygiedig yn y maes hwn eu cymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith a rhoddwyd ymateb i 27 o Adroddiadau Blynyddol gan gyrff gwirfoddol ynghylch gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg. Mae'r cymorth grant a ddarparwyd drwy Gronfa 'Estyn Llaw' (a ariannwyd gan Lywodraeth y Cynulliad drwy Fwrdd yr Iaith) wedi rhoi hwb mawr i nifer o brosiectau pwysig yn y sector.

6.15 Mae nifer mawr o gyrff yn y trydydd sector wedi rhoi cyfraniad amhrisiadwy at dwf parhaus a chynaliadwy'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw. Mae traddodiad hir yn y sector o hyrwyddo'r iaith. Mae llawer o gyrff sydd â'r prif amcan o hyrwyddo'r iaith.

Yn ôl Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, mae tua 30,000 o gyrff gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru. Mae llawer modd i'r trydydd sector gyfrannu at ffyniant yr iaith a bydd Bwrdd yr Iaith yn dal i weithio mewn partneriaeth â'r sector i hyrwyddo hyn. Mae hefyd yn gobeithio gweld nifer y cynlluniau iaith Gymraeg sydd wedi'u cymeradwyo yn y sector yn dal i gynyddu.

Bwrdd yr Iaith a'r sector cyhoeddus

6.16 Dros gyfnod o ddeunaw mis cynhaliodd y Bwrdd brosiect peilot gyda dau sefydliad cyhoeddus gan ddechrau ym mis Ebrill 2007. Y cyrff oedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi Cymru. Cyn hynny roedd y Bwrdd wedi treulio 2006-07 yn peilota cynllun gweinyddu dwyieithog o fewn cyrff cyhoeddus, sef Cyngor Sîr Ceredigion a Heddlu Gogledd Cymru, gyda golwg ar greu'r cyfle a'r hinsawdd briodol i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y gweithle. Prosiect yw hwn sydd yn cyd-fynd yn llwyr â gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y Gymraeg gan fod *Iaith Pawb* yn nodi y dylid '...datblygu mentrau sy'n rhoi mwy o gyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd'.

6.17 Yn 2007-08, am gyfnod o ddeunaw mis felly, ymestynnwyd y gwaith ymhellach, a rhoi cyfle i ddau gorff arall fynd rhagddi i ddatblygu eu gweinyddiad mewnol gan adeiladu ar brofiad a gwaith y flwyddyn gyntaf.

6.18 Unwaith eto, bu'r Bwrdd yn cydweithio'n agos â'r ddau gorff i ddatblygu eu gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg gan roi sylw i ddiwylliant gweinyddol y corff; iaith hyfforddiant mewnol y corff; gweithio ar bapur; gweithio ar lafar; adnoddau a chyngor proffesiynol.

a) Cyngor Cefn Gwlad Cymru

6.19 Cyflogir 510 o staff mewn 13 o swyddfeydd yng Nghymru. Ar ddechrau'r prosiect penderfynwyd y byddai bob aelod o staff yn rhan o'r prosiect. Cafodd y prosiect ei gwblhau o fewn paramedrau'r cynllun gwreiddiol. Gellir crynhoi'r hyn a gyflawnwyd yn sgil gweithredu'r prosiect fel a ganlyn:

- Polisi mewnol ynglŷn â gweithio'n ddwyieithog wedi ei ddiwygio;
- Crynodeb dwyieithog o holl bapurau'r Cyngor yn cael eu darparu;
- Cynhelir cyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli yn ddwyieithog;
- Seminarau staff bellach yn ddwyieithog;
- Caiff bob cyfarfod mewnol eu hagor a'u cau yn ddwyieithog, fan lleiaf;
- Prynwyd offer cyfieithu ar y pryd, er mwyn cynnal cyfarfodydd fideo-gynhadledd dwyieithog;
- Hunanwasanaeth i staff ar gael yn ddwyieithog drwy system gyfrifiadurol Adnoddau Dynol;
- Clustnodwyd cyllideb i sicrhau y gellir recordio gwaith achos yn ddwyieithog ar eu system gyfrifiadurol fewnol;
- Caniatâd wedi ei roi, lle bo'n ymarferol, i staff gwblhau proses rheoli perfformiad yn ddwyieithog;
- Galluogwyd staff i newid rhyngwyneb eu cyfrifiaduron i'r dewis Cymraeg;

- Cynhaliwyd archwiliad sgiliau iaith staff, dynodwyd sgiliau iaith swyddi a dechreuwyd gweithredu rhaglen sgiliau o Fedi 2008 ymlaen, gyda 64 yn cymryd rhan mewn rhaglen hyfforddi;
- Gosodir dysgwyr brwd i weithio ochr yn ochr â siaradwyr Cymraeg er mwyn ymarfer sgiliau iaith;
- Anogir defnyddio e-bost yn anffurfiol i ymarfer defnyddio'r Gymraeg;
- Cafodd pecynnau geirfa adrannol eu creu mewn meysydd arbenigol;
- Cryfhawyd y polisi recriwtio;
- Paratowyd cynlluniau gweithredu ar gyfer cynyddu'r Gymraeg yn fewnol gan bob adran;
- Gosodwyd gwybodaeth neu ddolen at gymhorthion ar-lein;
- Cynhaliwyd seminar ar sgiliau cadeirio cyfarfodydd dwyieithog;
- Gweithredwyd cynllun marchnata arferion iaith, e.e. cyflwyniadau mewnol, cylchlythron, e-byst, cyfleoedd cymdeithasu.

6.20 Yn yr adroddiad diwedd prosiect nodir bwriad i gryfhau adran y cynllun iaith sy'n ymwneud â gweithio'n fewnol, parhau i arbenigo yn y maes sgiliau, a monitro cynnydd cynlluniau gweithredu adrannol.

b) Gwasanaeth Llysoedd ei Mawrhydi - Cymru

6.21 Mae 155 o siaradwyr Cymraeg yn gweithio i'r sefydliad yng Nghymru (tua 12%). Mae 82 yn rhagor yn dysgu Cymraeg. Bu i'r prosiect gyffwrdd yn uniongyrchol â tua 70 o staff y sefydliad. Gellir crynhoi'r hyn a gyflawnodd y prosiect fel a ganlyn:

- Mae cwrs cynefino trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael i staff newydd sy'n ymuno â'r Llysoedd;
- Cynhelir cyfarfodydd Byrddau'r Llys yn ddwyieithog yn y Gogledd cyfarfodydd llawn - 2 allan o 6 o'r meinciau yn y Gogledd, gyda Sir Gaerfyrddin yn symud i'r cyfeiriad hwnnw. Cynhelir cyfarfodydd y grŵp materion barnwrol yn ddwyieithog. Prynwyd offer cyfieithu mewn tair ardal er mwyn cynnal cyfarfodydd mewnol dwyieithog;
- Mae gwaith papur y broses rheoli perfformiad yn ddwyieithog a'r broses wedi ei chynnal yn Gymraeg yng Nghaernarfon hyd yma;
- Mae cyrsiau galwedigaethol cyfrwng y Gymraeg ar gael e.e. cwrs amrywiaeth 'Gwahanol Bobl, Gwahanol Anghenion';
- Sefydlwyd Pencampwyr Iaith ymhob swyddfa a llys yng Nghymru (42) a chynnal 3 seminar i ddatblygu eu swyddogaethau;
- Darparwyd hyfforddiant i annog staff i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol;
- Cynhaliwyd prosiect arbennig er mwyn ystyried y rhwystrau sy'n llesteirio defnydd o'r Gymraeg yn y Gweithle a chytunwyd ar gamau gweithredu;
- Cynhaliwyd seminar ar sgiliau cadeirio cyfarfodydd dwyieithog.

6.22 Mae'r Gwasanaeth Llys wedi datgan bwriad i barhau i ddatblygu'r gwaith, e.e. bydd y pencampwyr yn gyfrifol am nodi camau ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle, bydd agweddau rheolaethol yn cael eu cryfhau, yn y Gogledd sefydlwyd perthynas agos â Choleg Menai er mwyn cynnal cyrsiau gloywi ar-lein a bydd yr arfer hwn yn parhau.

Defnydd o'r Gymraeg gan Bobl Ifanc

6.23 Mae'n hollbwysig bod pobl ifanc yn meithrin ymdeimlad o berchnogaeth ar yr iaith a'u bod yn cael digon o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd. Parhaodd Bwrdd yr Iaith â'i gymorth i nifer o brosiectau yn 2008-09 a oedd â'r bwriad o ymgysylltu â siaradwyr Gymraeg ifanc. Un agwedd allweddol ar hyn yw'r cymorth a ddarparwyd i ddatblygu'r byd cerddoriaeth Gymraeg ac ar gyfer cyfleoedd i harneisio doniau ifanc.

6.24 Pwrpas y **Prosiect Cerddoriaeth Gymraeg Gymunedol** yw cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg pobl ifanc, drwy hyrwyddo cerddoriaeth Gymraeg gyfoes ar lefel y gymuned. Dechreuodd hyn yn 2003-04 ac mae'n cael ei redeg drwy bartneriaeth rhwng y Bwrdd, S4C, a BBC Radio Cymru. Yn ystod 2008-09 fe wnaeth y prosiect drefnu neu gyd-drefnu **16 o gigiau, cynorthwyo 10 o grwpiau/artistiaid Cymraeg newydd a chynnal cyfanswm o 29 o weithdai.**

6.25 Partneriaeth arall rhwng y Bwrdd, S4C a BBC Radio Cymru yw'r **daith ysgolion flynyddol** ym mhob rhan o Gymru i gyflwyno cerddoriaeth Gymraeg gyfoes i bobl ifanc. Rhoddir cymorth at gynnal y teithiau hyn hefyd gan y Mentrau Iaith, yr Urdd ac ardaloedd Cynlluniau Gweithredu Iaith y Bwrdd. Ymwelodd **taith 2008** a gynhaliwyd yn yr hydref ag **20 o ysgolion ledled Cymru** a chyrraedd cynulleidfa o **8,000 o bobl ifanc**. Bu o leiaf 400 o bobl ifanc mewn gweithdai a oedd yn rhan o'r daith.

6.26 Darparwyd **grantiau** i gyrff i helpu i ddarparu gweithgareddau cymdeithasol ar gyfer pobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymhlith y cyrff yr oedd y **Mentrau Iaith, yr Urdd, Gwobr Dug Caeredin, Cyngor Chwaraeon Cymru, a'r Clybiau Ffermwyr Ifanc.**

6.27 Nod prosiect y Bwrdd i **hyrwyddo'r defnydd o'r iaith** ymysg pobl ifanc yw cymell pobl ifanc i ddangos menter, datblygu sgiliau newydd a chydweithio'n greadigol i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu hysgolion, yn ogystal â rhoi rhyddid iddynt ymchwilio i'w perthynas eu hunain â'r iaith.

6.28 Cydweithiodd Bwrdd yr Iaith, athrawon a mentrau Cymraeg lleol i sicrhau bod pobl ifanc o 10 ysgol yn ne-orllewin Cymru'n cael cyfle i ddatblygu prosiectau unigol ym mhob ysgol i feithrin diddordeb yn yr iaith ac, yn bwysicaf oll, i'w gwneud yn berthnasol iddynt hwy eu hunain ac i'w cyfoedion. Yn ystod 2008-09, cynigiwyd cymorth ariannol i'r 10 ysgol hyn a chynhaliwyd gweithgareddau amrywiol rhwng mis Hydref 2008 a mis Mawrth 2009.

6.29 Mae Tîm Plant a Phobl Ifanc y Bwrdd wedi bod yn gweithio'n strategol hefyd i hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg, drwy ddarparu gwasanaethau ieuencid Cymraeg. Ymwelwyd â chwe Awdurdod Lleol i drafod ac asesu lefelau eu darpariaeth o wasanaethau ieuencid Cymraeg.

Y Gymraeg ym maes TGCh

6.30 Rhaid i'r Gymraeg gael lle amlwg ym maes technoleg i sicrhau y bydd yn dal yn berthnasol i genedlaethau'r dyfodol.

6.31 Amcan strategaeth TGCh Bwrdd yr Iaith yw normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y maes cynyddol bwysig hwn. Mae llawer o adnoddau TG Cymraeg ar gael eisoes, fel rhyngwynebau a rhaglenni gwirio sillafu, a nod y strategaeth yw cynyddu'r defnydd helaeth o'r rhain a datblygu'r maes hwn ymhellach.

6.32 Yn ystod 2008-09, canolbwyntiodd y Bwrdd ei ymdrechion ar hyrwyddo'r defnydd o'r feddalwedd Gymraeg sydd ar gael yn awr. Parhaodd y Bwrdd â'i arfer o gomisiynu cwmnïau i hyrwyddo meddalwedd Gymraeg yn y sector preifat, a darparu hyfforddiant ac arweiniad ar ei defnyddio. Yn ogystal â hynny, cynhaliodd y Bwrdd drafodaethau â Llywodraeth y Cynulliad, sy'n rhoi rhaglen ar waith i sicrhau y bydd y **Pecyn Rhyngwyneb Cymraeg am ddim ar gyfer Microsoft Office 2003** ar gael ar ei holl gyfrifiaduron bwrdd gwaith.

Terminoleg a Chyfieithu

6.33 Cyflwynodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a oedd yn cynnwys Bwrdd yr Iaith, Llywodraeth y Cynulliad a phartneriaid eraill ym maes safoni termau, argymhellion i'r Gweinidog dros Dreftadaeth ynghylch sefydlu Canolfan Safoni Termau Genedlaethol. Mae trafodaethau'n parhau rhwng swyddogion yn Llywodraeth y Cynulliad a Bwrdd yr Iaith i benderfynu ar ffordd ymlaen ar ôl cael argymhellion y grŵp.

6.34 Yn y cyfamser, parhaodd y gwaith mewn partneriaeth rhwng y Bwrdd a'r Gwasanaeth Cyfieithu ym maes terminoleg. Ymgwymerodd y Gwasanaeth Cyfieithu hefyd â gwaith i wneud gwefan TermCymru yn fwy cynaliadwy ac ymarferol.

6.35 Mae'r broses o **safoni enwau lleoedd** ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru'n parhau. Mae Bwrdd yr Iaith wedi bod yn cydweithio'n agos â chynghorau ledled Cymru fel rhan o'r fenter hon a chynullodd nifer o gyfarfodydd y Pwyllgor Ymgynghorol ar Enwau Lleoedd i fwrw ymlaen â'r agenda hon.

6.36 Parhaodd y **Llinell Gyswilt** i ddarparu cyfieithiadau byr a phrawfddarllen darnau byr o destun am ddim ac **ymatebodd i bron 17,000 o ymholiadau**.

6.37 Mae adolygiad annibynnol wedi'i gynnal o **rôl y Gwasanaeth Cyfieithu** o fewn Llywodraeth y Cynulliad, a disgwyllir cael yr adroddiad terfynol yn ystod 2009-10.

Cyngor Llyfrau Cymru

6.38 Cafodd Cyngor Llyfrau Cymru gyllid grant o £1,356,000 gan Lywodraeth y Cynulliad i **hyrwyddo cyhoeddi yn y Gymraeg** yn 2008/09. Dosbarthwyd y cyllid hwn gan Gyngor Llyfrau Cymru i roi cymorth at gyhoeddi llyfrau newydd a chylchgronau, i gynorthwyo awduron a darlunwyr, i hyrwyddo gwerthwyr llyfrau annibynnol, i roi taliadau ar sail perfformiad i gyhoeddwy ac i roi cymorth i farchnata llyfrau newydd.

Defnydd o'r Gymraeg gan gyrff chwaraeon

6.39 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i roi cymorth i gyrff rheoli chwaraeon i

hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn chwaraeon.

6.40 Fel arwydd o'i ymrwymiad i'r Gymraeg, ym mis Mawrth 2008, cyhoeddodd Undeb Rygbi Cymru (URC) ei fod wedi ymrwymo i ddatblygu polisi iaith Gymraeg.

6.41 Yn ystod 2008-09, arweiniodd partneriaeth rhwng Llywodraeth y Cynulliad, Cyngor Chwaraeon Cymru ac URC at dri phrosiect i hyrwyddo ac amlygu pwysigrwydd a pherthnasedd y Gymraeg i rygbi undeb fel camp. O ganlyniad i'r prosiectau, cafwyd mwy o arwyddion dwyieithog yn Stadiwm y Mileniwm, deunydd dwyieithog ar wefan URC (sy'n brosiect parhaus) a thocynnau a rhaglenni dwyieithog ar gyfer Pencampwriaeth Rygbi dan 20 y Byd, a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2008. Yn ogystal â hynny, defnyddiodd URC fwy o Gymraeg ar docynnau gemau'r Chwe Gwlad.

6.42 Cyflwynodd Nofio Cymru ei gwrs dwyieithog cyntaf erioed ar lefel 1 ar gyfer 'Dyfarniad Athro Nofio' yng Ngheredigion. Mae'r awdurdod lleol yn awr yn gallu cynnig sesiynau dysgu nofio dwyieithog i blant iau yn ei holl byllau nofio.

6.43 Yn Rhondda Cynon Taf, mae'r awdurdod lleol yn cydweithio â Phrifysgol Morgannwg i ddatblygu cronfa o wirfoddolwyr Cymraeg i gyflwyno darpariaeth chwaraeon a hamdden drwy gyfrwng y Gymraeg.

6.44 Gyda chymorth Cyngor Chwaraeon Cymru, mae Sboncen Cymru wedi cynnwys y Gymraeg yn ei waith ac mae bellach yn cynhyrchu cylchlythyrau Cymraeg/dwyieithog, a hefyd yn hyfforddi hyfforddwyr i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Y Gymraeg yn y Celfyddydau

Theatr Genedlaethol Cymru

6.45 Erbyn diwedd taith y ddrama *Bobi a Sami* ym mis Mawrth 2009, a hwnnw'n bymthegfed cynhyrchiad y Theatr Genedlaethol, roedd **50,124 o docynnau** wedi'u gwerthu ar gyfer cynyrchiadau'r cwmni ers ei lansio yn 2004. Roedd creu Theatr Genedlaethol Cymru yn fenter gan Lywodraeth y Cynulliad i roi sylw i brinder y dramâu prif ffrwd ar raddfa fwy a oedd ar gael i'w perfformio o gwmpas canolfannau celfyddydau a theatrau ledled Cymru.

6.46 O dan arweiniad celfyddydol ei Gyfarwyddwr, mae'r cwmni wedi llwyddo i gynhyrchu'r mathau amrywiol o ddramâu a ragwelwyd wrth greu'r cwmni.

6.47 Ers ei sefydlu mae'r cwmni wedi hyrwyddo ysgrifennu newydd, o'i gynhyrchiad agoriadol o *Yn Debyg iawn i Ti a Fi* gan Meic Povey hyd at lwyddiant poblogaidd diweddar y ddrama newydd gan Aled Jones Williams, *Iesu!*

6.48 Ni anghofwyd y *repertoire* o ddramâu clasurol, yn amrywio o gynhyrchiad cofiadwy Daniel Evans o *Esther* gan Saunders Lewis i'r perfformiadau diweddar o *Bobi a Sami* a osododd waith Wil Sam yn gadarn yng nghyd-destun mudiad Theatr yr Abswrdd ledled Ewrop.

6.49 Yn *Hen Rebel a Porth y Byddar* aeth y cwmni ati i greu dramâu sy'n cofnodi digwyddiadau allweddol yn hanes Cymru.

6.50 Bellach mae gan y cwmni swyddfeydd a mannau ymarfer yn ei ganolfan bwrpasol ar safle Coleg y Drindod yng Nghaerfyrddin. Mae'r cwmni, ar y cyd â'r coleg, yn datblygu cynlluniau i gynnal hyfforddiant i dechnegwyr, rheolwyr llwyfan a dylunwyr setiau a goleuadau sy'n siarad Cymraeg.

Theatr Gerdd Cymru

6.51 Dyfarnodd Cyngor Celfyddydau Cymru grant Loteri i Theatr Gerdd Cymru (gwaith ar y cyd â dwy ganolfan newydd yng Nghymru, sef Galeri a Chanolfan Mileniwm Cymru) i gynnal prosiect ychwanegol o'r enw '*Straeon mewn Cerddoriaeth/Stories in Music*'.

6.52 Mae'r prosiect wedi'i gynllunio ar gyfer canolfannau llai nad ydynt yn gallu dangos cynyrchiadau mwy, a dyma'r tro cyntaf i'r cwmni weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y cywaith hwn yn cynnwys gwaith gan gyfansoddwr newydd o Gymru, ynghyd â choreograffydd a chyfarwyddwr Cymraeg eu hiaith, er mwyn helpu i feithrin a datblygu doniau newydd ym maes theatr gerdd yng Nghymru. Comisiynwyd Gwyneth Glyn i gyfieithu 'Stori'r Milwr' gan Stravinsky i'r Gymraeg.

Rhagor o brosiectau celfyddydol lleol

6.53 Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, penododd Theatr Felin-fach Swyddog Datblygu Dawns, a hi sy'n cydgysylltu'r ddarpariaeth ddawns yng Ngheredigion. Barnwyd bod y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol, felly mae gwaith datblygu'n parhau mewn modd tebyg iawn i'r hyn a ddarparwyd o'r blaen gan Dawns Dyfed.

6.54 Yn ogystal â hynny, mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cydweithio'n agos â Dawns Gymuned Cymru gyda'r bwriad o wneud cynnydd ar y strategaeth Dawns a'r Gymraeg mewn partneriaeth â'r byd addysg.

Y Gymraeg yn y cyd-destun rhyngwladol

6.55 Parhaodd Llywodraeth y Cynulliad i ariannu'r **prosiect addysgu Cymraeg yn nhalaith Chubut yn Ariannin**. Rheolir y prosiect hwn ar ran Llywodraeth y Cynulliad gan y **Cyngor Prydeinig** mewn cydweithrediad â **Chymdeithas Cymru-Ariannin** a'r **Ganolfan Cymraeg i Oedolion** – Caerdydd a Bro Morgannwg, Prifysgol Caerdydd. Cafodd y prosiect **£47,000** gan Lywodraeth y Cynulliad yn ystod blwyddyn ariannol 2008-09.

6.56 Fel rhan o'r prosiect, caiff athrawon o Gymru eu hanfon ar secondiad i gymunedau allweddol, caiff athrawon eu datblygu yn y gymuned leol, sefydlir cyrsiau strwythuredig a hyrwyddir gweithgareddau Cymraeg. Mae'r gweithgareddau a gefnogir gan Lywodraeth y Cynulliad yn dod â budd i gymunedau Dyffryn Chubut (gan gynnwys y Gaiman a Threlew) a'r rhai yn yr Andes (fel Esquel a Trevelin).

6.57 Yn ystod 2008-09, datblygodd y prosiect gysylltiadau agos â **Menter**

Patagonia ar y cyd â'r Urdd, Cymdeithas Cymru-Ariannin, y Cyngor Prydeinig a chyda chymorth gan fusnesau preifat. Mae'r Fenter, sy'n canolbwyntio ar weithgareddau tebyg i rai'r Mentrau Iaith sy'n gweithredu ledled Cymru, yn cynnig cyfleoedd i gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg yn Chubut.

6.58 Cymru oedd y wlad dan sylw yng **Ng• yl Bywyd Gwerin Smithsonian** yn **Washington DC** ym misoedd Mehefin/Gorffennaf 2009. Hwn oedd y **prosiect diwylliannol rhyngwladol mwyaf dan arweiniad Llywodraeth y Cynulliad** y tu allan i Gymru ac achubwyd ar bob cyfle i arddangos y Gymraeg, yn amrywio o ddsbarthiadau Cymraeg a gynhaliwyd ar safle'r • yl i arwyddion dwyieithog, fel bod pobl yn gallu gweld a chlywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio bob dydd.

Rhan 2: Holiadur Hunanasesu ac Adroddiad Cydymffurfio'r Cynllun Iaith Gymraeg 2008-09

Rhagymadrodd

Mae'r adran hon yn bwrw golwg dros yr hyn a gyflawnwyd yn fewnol gennym yn ystod 2008-09, ac yn tynnu sylw at feysydd ar gyfer gwaith pellach yn y dyfodol. Rydym yn defnyddio amryw o fathau o dystiolaeth, gan gynnwys holiadur hunanasesu blynyddol ac adroddiadau cydymffurfio a gyflwynir gan 16 o Adrannau i Uned yr Iaith Gymraeg, i ddangos sut y maent yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru.³

Mae'r Cynllun yn nodi sut bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cyflawni'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

Mae'r gwaith monitro a gyflawnwyd dros y blynyddoedd wedi dangos datblygu cyson wrth weithredu'r Cynllun. Mae adroddiadau monitro blaenorol, ynghyd â Chynlluniau Gweithredu Iaith Gymraeg adrannol, wedi nodi nifer o flaenoriaethau sydd i'w hyrwyddo er mwyn bwrw ymlaen â gweithredu'r Cynllun a phrif ffrydio materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r blaenoriaethau hynny wedi'u rhestru isod ynghyd â diweddariad byr ar gyflawniadau.

Mae'r cofnodion monitro a data a ddarparwyd wedi dangos bod dibyniaeth o hyd ar y gwasanaethau cyfieithu a'r nifer cyfyngedig o staff yn Adrannau'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n siarad Cymraeg ac sy'n barod i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Meysydd Blaenoriaeth

Blaenoriaeth	Cynnydd
<i>Swyddogaethau polisi a chyflawni</i>	
Datblygu canllawiau/pecyn cymorth i helpu adrannau i asesu effaith polisiâu a gwasanaethau ar y Gymraeg, siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg.	Mae'r rhestr gyfeirio polisiâu a gwasanaethau newydd a ddatblygwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar y cyd ag Uned yr Iaith Gymraeg yn offeryn newydd y gellir ei ddefnyddio i asesu effeithiau. Mae ystyriaeth bellach wedi'i rhoi yn 2008-09 i ddatblygu offer i asesu effeithiau. Mae Uned yr Iaith Gymraeg wedi cadw cofnod o bolisiâu lle defnyddiwyd y rhestr gyfeirio yn ystod 2008/09. Mae Uned yr Iaith Gymraeg

³ <http://new.wales.gov.uk/topics/welshlanguage/publications/06wlangscheme/?skip=1&lang=cy>

Blaenoriaeth	Cynnydd
	yn bwriadu datblygu canllawiau pellach drwy gydweithredu ag Uned Polisi Strategol Llywodraeth y Cynulliad yn ystod 2009/10.
Hysbysebu a lledaenu'r rhestrau cyfeirio newydd i'w defnyddio wrth ddatblygu polisiau, gwasanaethau a mentrau newydd.	Mae'r rhestrau cyfeirio newydd a ddatblygwyd gan Fwrdd yr Iaith ar y cyd ag Uned yr Iaith Gymraeg wedi'u gwreiddio ym mhroses y Porth i Bolisiau ers mis Mai 2008. Cyflawnwyd gwaith pellach i hysbysebu'r rhestrau cyfeirio yn 2008-09, drwy rwydwaith y Cyd-drefnyddion Gwasanaethau Dwyieithog, mewn sesiynau cynefino ac mewn sesiynau ymwybyddiaeth eraill a gynhaliwyd gan Uned yr Iaith Gymraeg, a thrwy dudalennau Uned yr Iaith Gymraeg ar y fewnwyd.
Hysbysebu a lledaenu canllawiau Bwrdd yr Iaith ar gynnwys amodau ynghylch y Gymraeg mewn cynlluniau grant, a sicrhau bod yr holl gynlluniau grant yn cynnwys amodau lle mae hynny'n berthnasol.	Rhannwyd y canllawiau â chyd-drefnyddion dwyieithog mewn cyfarfodydd. Cyflawnwyd gwaith pellach yn 2008-09 i brif ffrydio'r canllawiau ym mhrosesau dyfarnu grantiau Llywodraeth y Cynulliad.
Gwasanaethau cwsmeriaid rheng flaen	
Sicrhau bod y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Cwsmeriaid, ac unrhyw brosiectau sy'n deillio ohoni, yn dal i drin darpariaeth ddwyieithog fel rhan annatod o wasanaethau cwsmeriaid da yn unol ag egwyddorion craidd Creu'r Cysylltiadau.	Roedd tîm y Cynllun Iaith Gymraeg yn bresennol mewn cyfres o weithdai i randdeiliaid, ac mae wedi parhau i gymryd rhan yn y prosiectau sydd wedi deillio o'r Rhaglen yn 2008-09.
Yr holl wasanaethau rheng flaen i ystyried cymryd rhan yn ymgyrch farchnata Bwrdd yr Iaith " <i>mae gen ti ddewis... / you have a choice</i> " ar gyfer 2008-09 (gyda'r bwriad o gynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg).	Mae Uned yr Iaith Gymraeg, y Gwasanaeth Cyfieithu a Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi cydweithredu i gynhyrchu taflen " <i>mae gen ti ddewis</i> " i'w defnyddio mewn cynadleddau a chyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Nod y daflen yw annog siaradwyr Cymraeg i siarad Cymraeg mewn digwyddiadau o'r fath, a rhoi rhai cynghorion ar yr arferion gorau i

Blaenoriaeth	Cynnydd
	<p>siaradwyr Cymraeg a rhai di-Gymraeg ynghylch cyfleusterau cyfieithu. Mae'r taflenni <i>Mae gen ti ddewis...</i> a defnyddiau marchnata cysylltiedig eraill wedi'u dosbarthu i staff yn ffeiriau gwybodaeth Llywodraeth y Cynulliad drwy gydol y flwyddyn ac fe'u dosbarthir gan gyfieithwyr mewnol ac allanol mewn digwyddiadau.</p>
Hybu ymwybyddiaeth	
<p>Datblygu hyfforddiant ynglŷn ag ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a dynodi cyfleoedd i gynnwys materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg mewn hyfforddiant generig (e.e. gwasanaethau cwsmeriaid, cydraddoldeb ac amrywiaeth).</p>	<p>Roedd tîm y Cynllun Iaith Gymraeg yn bresennol yn sesiwn Bwrdd yr Iaith lle cyflwynwyd y pecyn a ddatblygwyd gan y Bwrdd a'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar hybu ymwybyddiaeth ynghylch y Gymraeg. Ers hynny bu'r tîm yn treialu'r deunydd o fewn Llywodraeth y Cynulliad. Cyflawnwyd gwaith pellach yn 2008-09 i ddynodi cyfleoedd i gynnwys materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg mewn hyfforddiant generig.</p> <p>Mae tîm y Cynllun Iaith Gymraeg hefyd wedi cwrdd nifer o weithiau ag Eliesha (darparwr hyfforddiant craidd Llywodraeth y Cynulliad), i sicrhau bod mwy o gyrsgiau'n cael eu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg a bod y daflen a gynhyrchwyd gan Uned yr Iaith Gymraeg yn ystod 2008-09 (i hybu ymwybyddiaeth ynghylch y Cynllun Iaith Gymraeg) wedi'i chynnwys ym mhob un pecyn hyfforddiant lle bynnag y bo modd.</p> <p>Cafwyd erthyglau ar Gorwel (hafan Llywodraeth y Cynulliad ar y fewnrwyd) yn cyfeirio staff i safle Uned yr Iaith Gymraeg ar y fewnrwyd i gael gwybodaeth am offer a ddatblygwyd i'r rheini sy'n dymuno gwirio eu testunau Cymraeg, etc, gan gynnwys y rhai a gyrchwyd yn fewnol gan y Gwasanaeth Cyfieithu.</p>
Hybu ymwybyddiaeth ynghylch	Mae canllawiau wedi'u cynhyrchu gan

Blaenoriaeth	Cynnydd
<p>gofynion y Cynllun o ran cyfarfodydd, cynadleddau a digwyddiadau, gan gynnwys yr arferion gorau ar gyfer defnyddio cyfleusterau cyfieithu.</p>	<p>Uned yr Iaith Gymraeg a'r Gwasanaeth Cyfieithu ac mae angen eu hysbysebu ymhellach ym mhob rhan o'r corff yn 2009-10 ochr yn ochr â'r daflen <i>Mae gen ti ddewis...</i> (gweler uchod). Mae deunyddiau hybu ymwybyddiaeth wedi'u defnyddio mewn cyrsiau cynefino, mewn sesiwn yn ystod diwrnod cwrdd i ffwrdd Is-adran Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon Llywodraeth y Cynulliad ac mewn sesiwn gyda CYMAL.</p> <p>O ran y cyrsiau generig, mae Uned yr Iaith Gymraeg wedi cydweithio ag Eliesha i sicrhau bod y cwrs Rheolwyr sy'n Canolbwyntio ar Weithredu ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg a bod y dewis Cymraeg newydd wedi'i hysbysebu'n ehangach. Mae angen mwy o waith yn 2009-10 ac wedyn i sicrhau bod rhagor o gyrsiau ar gael yn Gymraeg (a'r cyfan ohonynt yn y pen draw).</p>
<i>Gweithio'n ddwyieithog</i>	
<p>Rhoi ar waith argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen mewnol a fu'n ystyried materion sy'n gysylltiedig â gweithio'n ddwyieithog.</p>	<p>Rhodddwyd yr argymhellion ar waith yn 2008-09, gan gynnwys adolygiad o rôl y Gwasanaeth Cyfieithu o fewn y corff. Cwblheir yr adolygiad hwn yn 2009-10. Ymgwymerir â gwaith hefyd ar y rhaglen Gwella'r Gymraeg. Bydd tîm Prosiect Gwella'r Gymraeg yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu Cynllun Gwella'r Gymraeg ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad yn ystod rhaglen dair blynedd o hyd, i sicrhau bod y corff yn barod i gyflawni'r arferion gorau mewn ymateb i'r Mesur arfaethedig ynghylch yr Iaith Gymraeg.</p>
<i>Cynllunio sgiliau dwyieithog</i>	
<p>Sicrhau cynllunio ar gyfer sgiliau dwyieithog sy'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol a sicrhau bod prosesau a pholisïau eraill yn cydweddu â</p>	<p>Hwyluswyd cyfarfodydd pontio gan ymgynghorydd allanol ac fe'u cynhaliwyd ar gyfer adrannau, Cyddrefnyddion Gwasanaethau</p>

Blaenoriaeth	Cynnydd
gwaith cyfredol ar sgiliau dwyieithog.	Dwyieithog, yr Uned Fusnes a thîm y Cynghorydd Adnoddau Dynol perthnasol i ddadansoddi pob Strategaeth Sgiliau a phenderfynu ar y camau nesaf. Dechreuwyd hefyd ar astudiaeth o brosesau a pholisïau Adnoddau Dynol i sicrhau eu bod yn gyson ac yn gytûn â chynllunio ar gyfer sgiliau dwyieithog gan sicrhau bod gwahanol bolisïau wedi'u cydgysylltu a'u bod yn ategu ei gilydd.

7. Canlyniadau a Dadansoddiad

Mae'r adran hon yn dangos prif ganfyddiadau Holiadur Hunanasesu ac Adroddiad Cydymffurfio'r Cynllun Iaith Gymraeg. Amcan yr holiadur hwn yw canfod sut mae Llywodraeth y Cynulliad yn adlewyrchu ystyriaethau o ran y Gymraeg ym mhob maes polisi ac yn cyflenwi gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd.

7.1 Prif Ganfyddiadau

O'r 16 o Adrannau a ymatebodd:

- Dywedodd 14 fod trefniadau ffurfiol ar waith ganddynt ar hyn o bryd i sicrhau bod y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo.
- Nododd 12 eu bod yn darparu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen, dywedodd pob un ohonynt fod staff dwyieithog o fewn rhai o'u timau o leiaf.
- Dywedodd tua hanner yr is-adrannau a ymatebodd eu bod yn adolygu drafftiau o ddogfennau a oedd wedi'u cyfieithu ac yn prawfddarllen y ddwy iaith 'weithiau' o leiaf.
- Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau'n dangos bod gwelliant ers 2007-08 o ran nifer yr is-adrannau sy'n gallu ymgymryd â thasgau cyffredin sy'n galw am rai sgiliau Cymraeg.

7.2 Ymatebion yr adrannau

Gofynnwyd i 16 o Adrannau yn Llywodraeth y Cynulliad ateb 14 o gwestiynau ynghylch eu cydymffurfiaeth â'r Cynllun Iaith Gymraeg yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2009.

Roedd pob un o'r cwestiynau'n ymwneud â thema neu destun penodol. Ymhlith y rhain yr oedd:

- Marchnata Gwasanaethau Dwyieithog
- Ymwybyddiaeth iaith

- Hyrwyddo a Hwyluso Dwyieithrwydd mewn Meysydd Polisi
- Cyhoeddiadau a Ffurflenni
- Cynadleddau a Chyfarfodydd Cyhoeddus
- Safleoedd ar y rhyngwyd
- Gwasanaethau Rhyngwyd Rhyngweithiol
- Ymgyrchoedd Cyhoeddusrwydd, Arddangosfeydd a Hysbysebion
- Gwasanaethau a gyflenwir ar ran yr adran gan drydydd partïon
- Staffio – gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen
- Trefniadau ar gyfer gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg
- Brandiau Newydd
- Llinellau Cymorth a Llinellau wedi'u Neilltuo
- Tystiolaeth o'r defnydd o wasanaethau cyfrwng Cymraeg (os yw'n berthnasol)
- Sylwadau Ychwanegol

7.3 Marchnata Gwasanaethau Dwyieithog

Gofynnwyd i Adrannau:

'Yn ystod 2008-09, a wnaethoch adael i'r cyhoedd yng Nghymru wybod eich bod yn darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg?'

Roedd y term 'cyhoedd' yn cynnwys cyrff gwirfoddol, cyrff cyhoeddus ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig.

O'r 13 o adrannau yr oedd darparu gwasanaethau cyhoeddus yn berthnasol iddynt:

- Ymatebodd 7 gan ddweud eu bod yn gwneud hyn 'ar bob cyfle posibl'. Yr un oedd nifer yr adrannau a roddodd yr ateb hwn y llynedd.
- Nododd 11 ohonynt eu bod yn dweud ar eu tudalennau ar y we fod gwasanaethau Cymraeg ar gael ac yn hysbysu aelodau o'r cyhoedd (ymlaen llaw) y cânt siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus.
- Dywedodd 4 ohonynt eu bod yn ymgymryd ag ymarferiadau marchnata a chysylltiadau cyhoeddus penodol sydd â'r bwriad o dynnu sylw at wasanaethau Cymraeg.

7.4 Ymwybyddiaeth Iaith

Gofynnwyd i Adrannau:

'Pa nifer o'ch staff sydd wedi cael hyfforddiant i sicrhau eu bod yn gwybod am y Cynllun Iaith Gymraeg a'r modd y mae'n effeithio ar eu gwaith?' (Nid oedd y cwestiwn hwn yn gyfyngedig i 2008-09).

O'r 16 o adrannau:

- Dywedodd mwy na hanner fod y rhan fwyaf o'u staff yn ymwybodol o'r Cynllun Iaith Gymraeg ac wedi cael hyfforddiant yn ei gylch. Mae hyn ychydig yn uwch na'r canlyniadau y llynedd.

- Nododd 14 fod y Cynllun Iaith Gymraeg a'r cynllun gweithredu Adrannol yn cael eu trafod yn ystod cyfnodau cynefino staff newydd yn yr adran. O ran y ddwy nad oeddent yn trafod y Cynllun a'r cynllun gweithredu Adrannol yn ystod cyfnodau cynefino, nodwyd bod hyn yn faes i'w ddatblygu.
- Dywedodd 12 fod yr ymrwymïadau a nodwyd yn y Cynllun wedi'u hadlewyrchu mewn llawlyfrau, canllawiau a chyfarwyddiadau desg i staff. Nododd 11 o adrannau fod nodiadau atgoffa'n cael eu hanfon drwy'r e-bost o bryd i'w gilydd, yn eu hatgoffa am fodolaeth y Cynllun a'r Cynllun Gweithredu Adrannol.

Dywedodd rhai adrannau fod ymwybyddiaeth o'r Cynllun yn cael ei chynnal yn bennaf drwy'r broses gynefino. Mae trafodaethau mewn cyfarfodydd tîm a diweddariadau rheolaidd drwy benaethiaid is-adrannau, yn ogystal â grwpiau trafod, wedi'u defnyddio hefyd. Er enghraifft, mae Gweithgor y Gymraeg yn y Gyfarwyddiaeth Ystadegol wedi diweddarau ei Ganllawiau ar y Gymraeg i is-adrannau'n ddiweddar.

7.5 Hyrwyddo a Hwyluso Dwyieithrwydd mewn Meysydd Polisi

Gofynnwyd i Adrannau “**a oeddent wedi integreiddio ystyriaethau ieithyddol**” â'r canlynol o fewn yr adran:

- Meysydd polisi
- Systemau TGCh
- Ymchwil
- Cyllid grant
- Gwasanaethau i'r cyhoedd

7.6 Meysydd polisi

O'r 12 o adrannau yr oedd integreiddio elfennau ieithyddol â'u gwaith polisi'n berthnasol iddynt:

- Dywedodd mwy na hanner eu bod yn gwneud hynny drwy'r amser.
- Nododd 10 fod eu dogfennau ymgynghori'n cynnwys ystyriaeth i'r Gymraeg.

Mae'r Is-adran Gweinyddiaeth Gyhoeddus wedi datgan, er mai ychydig iawn o bolisiâu newydd y mae wedi'u cynhyrchu'n ddiweddar, y bydd unrhyw waith newydd yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y Cynllun Iaith Gymraeg, e.e. rheolau ymchwiliadau cyhoeddus.

7.7 Systemau TGCh

O'r 13 o adrannau yr oedd integreiddio ystyriaethau ieithyddol â'u systemau TGCh yn berthnasol iddynt:

- Dywedodd mwy na hanner eu bod yn gwneud hynny drwy'r amser, a nododd 4 eu bod yn gwneud hynny weithiau. Mae hyn yn well na'r llynedd.

- Nododd 10 ohonynt y gallent gynnig enghreifftiau o systemau TGCh newydd/diwygiedig sy'n rhoi rhyngwyneb ac allbynnau dwyieithog i'r cyhoedd.

Dywedodd y Gyfarwyddiaeth Ystadegol ei bod yn ymchwilio ar hyn o bryd i ganfod sut y gellir gwneud ei hofferyn lledaenu ystadegau, StatsCymru, yn gwbl ddwyieithog, ac i'r berthynas rhwng gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg a StatsCymru.

7.8 Ymchwil

- Dywedodd 9 o'r 11 o adrannau yr oedd gwaith ymchwil yn berthnasol iddynt eu bod wedi prif ffrydio ystyriaethau o ran y Gymraeg yn 2008-09 'weithiau' o leiaf.
- Nododd 10 o'r adrannau fod eu dogfennau manylebau tendro ar gyfer gwaith ymchwil yn cynnwys yr angen i'r *dull o gynnal prosiectau ymchwil a'u cynnwys* fod yn unol â gofynion y Cynllun ac adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, er enghraifft, cyfweiliadau, holiaduron, gohebiaeth a seminarau dwyieithog, cynnwys siaradwyr Cymraeg mewn samplau, a defnyddio iaith fel newidyn wrth ddadansoddi data.
- Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cydweithio'n agos yn 2008-09 â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ynghylch datblygu Cyfrifiad 2011. Arweiniodd y bartneriaeth hon at gyflogi arbenigwr ar y Gymraeg yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol i weithio ar yr holiaduron Cymraeg ar gyfer Cyfrifiad 2011. Gwnaethpwyd hyn er mwyn sicrhau bod fersiwn Gymraeg y ffurflen yn cael ei datblygu a'i rhoi dan brawf ar y cyd â'r fersiwn Saesneg am y tro cyntaf. Mae'r dull gweithredu hwn yn rhoi'r cyfle mwyaf posibl i gynnal profion ar yr un adeg yn y ddwy iaith a thrwy ddefnyddio'r dull hwn rhoddir ystyriaeth i faterion sy'n unigryw i'r ddwy iaith ym mhob cam yn y cylch datblygu. Hyrwyddir y gwaith hwn gan ddau weithgor sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol, y Gwasanaeth Cyfieithu ac Uned yr Iaith Gymraeg yn Llywodraeth y Cynulliad ynghyd ag arbenigwyr o gyrff allanol fel Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Canolfan Bedwyr a'r Uned Ddata Llywodraeth Leol.
- Amlinellwyd cynigion ar gyfer Cyfrifiad 2011 yn y Papur Gwyn 'Helpu i Lunio'r Dyfodol' a gyhoeddwyd yn ddwyieithog yn Rhagfyr 2008. Gofynnir cwestiwn am rugledd yn y Gymraeg hefyd - yr un cwestiwn ag y gofynnwyd yn 2001. Anfonir holiadur Cymraeg a Saesneg i bob cartref yng Nghymru.

7.9 Cyllid Grant

O'r 12 o adrannau yr oedd ariannu'n berthnasol iddynt:

- Dywedodd 8 adran eu bod bob amser yn integreiddio ystyriaethau ieithyddol. Mae hyn yn fwy na'r llynedd.
- Nododd 11 ohonynt eu bod yn defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf o delerau ac amodau grant craidd Llywodraeth y Cynulliad (sy'n cynnwys amodau ar y Gymraeg).

Mae'r rhestr gyfeirio yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith ar gyllid grant yn cael ei defnyddio fwyfwy yn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, er enghraifft, yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, ac fel rhan o'r Cynllun Arwyddion Cymraeg newydd ym Maes y Rhaglen Wariant ar Eiddo.

Bu gofyniad penodol i'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol gynnal prosiect wedi'i ariannu i wella ei darpariaeth ddwyieithog fel amod ar gyfer lefelau ariannu yn y dyfodol. Pan ofynnodd am ragor o gyllid ar gyfer Deddfwriaeth Cymru Ar-lein, fe'i gwnaed yn amod ei bod yn cynyddu ei darpariaeth ddwyieithog er mwyn ystyried cais o'r fath.

8. Gwasanaethau i'r cyhoedd

O'r 11 o adrannau yr oedd integreiddio ystyriaethau ieithyddol â'u gwasanaethau i'r cyhoedd yn berthnasol iddynt:

- Dywedodd 8 eu bod bob amser yn integreiddio ystyriaethau ieithyddol â'u gwasanaethau i'r cyhoedd. Nid yw hyn wedi newid ers y llynedd.
- Nododd 7 ohonynt fod gweithdrefnau wedi'u rhoi ar waith i sicrhau na ellir datblygu gwasanaethau newydd heb ystyried materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Mae llyfrgell gwbl ddwyieithog wedi'i sefydlu gan yr Hyrwyddwr Cydraddoldeb yn yr Adran Iechyd ac Astudiaethau Cymdeithasol ar gyfer 'Easy Read', gwasanaeth sy'n darparu gwybodaeth hawdd ei deall i'r cyhoedd ac sy'n effeithlon o ran adnoddau. Mae arweiniad i'r gwasanaeth hwn wedi'i ddarparu hefyd yn y Gymraeg a'r Saesneg.

8.1 Wyneb cyhoeddus Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn disgrifio ein perfformiad yn 2008-09 ar gyflwyno delwedd gorfforaethol ddwyieithog drwy ein papur swyddfa, negeseuon e-bost, arwyddion, cyhoeddiadau, ffurflenni, safle ar y rhynggrwyd, datganiadau i'r wasg a hysbysebion.

Mae ein papur swyddfa cyffredinol yn ddwyieithog, gan gynnwys papurau â phennawd, slipiau cyfarchion, cardiau busnes, dalennau blaen ar gyfer ffacsio, a chloriau cyhoeddiadau. Templedi corfforaethol ar gyfer papur swyddfa yw'r pwynt rheoli gofynnol.

Mae mecanweithiau rheoli ar ffurf canllawiau ar y fewnrwyd ac mae'r Pennaeth Cyhoeddusrwydd yn gyfrifol am ein logos. Rhaid i'r holl gynlluniau i gynhyrchu logos neu frandiau newydd gael eu cymeradwyo gan y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu, yn ogystal â'r defnydd o'r logos presennol gan asiantaethau allanol.

8.2 Arwyddion ar ein hadeiladau ac oddi mewn iddynt

Ymgwymerodd Uned yr Iaith Gymraeg â gwaith monitro mewnol yn 2008-09. Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng Uned yr Iaith Gymraeg a'r adran gyfleusterau adnoddau dynol i sicrhau bod yr holl arwyddion uniaith yn CP2 ac mewn swyddfeydd

eraill yn cael eu cyfieithu. Mae gwaith eisoes wedi'i gwblhau yn hyn o beth ac rydym wedi cael sicrwydd y bydd yr holl arwyddion newydd yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Bydd cyfarfodydd rheolaidd rhwng y ddau barti i fonitro cynnydd yn y maes hwn yn parhau yn 2009-10. Mae'r dderbynfa ym Mharc Cathays bellach yn cynnig gwasanaeth yn Gymraeg, ac mae'r hysbysiad sydd ar ddesg y dderbynfa a'r staff yn gwisgo bathodynau laith Gwaith Bwrdd yr Iaith yn dwyn sylw at hyn.

8.3 Gohebiaeth

Mae'r Is-adran Gwasanaethau Gweinidogol yn rheoli'r broses ar gyfer delio â gohebiaeth Weinidogol. Cyfanswm yr eitemau o ohebiaeth a atebwyd yn 2008-09 oedd 19,661. O'r rhain, cyfanswm yr eitemau Cymraeg oedd 688, yr atebwyd 573 ohonynt yn brydlon (83.0%). Cyfanswm yr eitemau Saesneg a gafwyd oedd 18,973 ac atebwyd 17,025 (89.0%) ohonynt yn brydlon. Dylid nodi bod nifer uwch o eitemau gohebiaeth Gweinidogol wedi'u derbyn a'u hateb, gan gynnwys ATs, yn ystod 2008/09.

8.4 Cyhoeddiadau a Ffurflenni

Gofynnwyd i Adrannau "**a oeddent yn fodlon eu bod wedi cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg mewn cysylltiad â chyhoeddiadau a ffurflenni yn 2008-09**", lle mae'r arferion safonol yn cynnwys cyhoeddi deunydd ysgrifenedig i'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen gan ddefnyddio'r fethodoleg blaenoriaethu cyfieithu⁴.

O'r 14 o adrannau yr oedd darparu cyhoeddiadau a ffurflenni'n berthnasol iddynt yn 2008-09:

- Atebodd 10 ohonynt y cwestiwn hwn gan ddweud eu bod yn gwneud hyn bob amser. Cafwyd yr un ateb gan 10 o adrannau y llynedd.
- Nododd 14 o adrannau fod eu holl gyhoeddiadau a ffurflenni'n cael eu hasesu yn ôl y system sgorio ar gyfer blaenoriaethu cyfieithu i bennu pa ddogfennau a ddylai gael eu cyhoeddi'n ddwyieithog a dywedodd ychydig llai na hanner fod ganddynt dîm cyhoeddiadau sy'n gweithredu fel porthgeidwad i sicrhau bod cyhoeddiadau'n unol â'r Cynllun.

Mae Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol wedi datgan y bydd canllawiau pellach ar y Gymraeg a chyhoeddiadau ymchwil yn cael eu datblygu ar ôl i'r cynllun treialu ar brotocol ar gyfer cyhoeddiadau Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth roi ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2009.

8.5 Adroddiadau arolygu

Cyhoeddodd AGGCC 3259 o adroddiadau ar leoliadau gofal cofrestredig a 28 o adroddiadau ar awdurdodau lleol unigol yn ystod 2008-09. Cynhyrchwyd 810 o adroddiadau, gan gynnwys yr holl adroddiadau ar awdurdodau lleol unigol, yn ddwyieithog yn unol â'r Cynllun. O'r rheini a gynhyrchwyd yn ddwyieithog, drafftwyd 62 (7.7%) ohonynt yn Gymraeg gan staff AGGCC a'u cyfieithu i'r Saesneg, a

⁴ Paragraffau 5.4 a 5.5 o'r Cynllun Iaith Gymraeg

drafftwyd y 748 sy'n weddill yn Saesneg a'u cyfieithu i'r Gymraeg, gan ddefnyddio adnodd pwrpasol dan gontract a sefydlwyd gan y Gwasanaeth Cyfieithu i'w ddefnyddio gan AGGCC (sy'n drefniant o'r un math ag y sefydlwyd ar gyfer Cadw ac is-adran gyhoeddiadau APADGOS).

8.6 Ffurflenni

Ffurflenni iechyd

Mae'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth y Cynulliad, drwy ymgynghori â Bwrdd yr Iaith a GIG Cymru, yn parhau i weithredu rhaglen gynlluniedig i gyflwyno fersiynau dwyieithog o ffurflenni'r GIG.

Cafwyd mwy o gynnydd yn ystod 2008-09. Yn ystod y flwyddyn i ddod (2009-10) canolbwyntir ar ddiweddarau cynhyrchion cyfredol sy'n rhan o Gyfres y Comisiwn Iechyd sydd eisoes ar gael yn ddwyieithog. Mae'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dal i drefnu ar gyfer diweddarau ffurflenni sydd eisoes yn ddwyieithog. Mae hefyd yn parhau â'r gwaith o gyflwyno ffurflenni mewn fformat dwyieithog sy'n ganlyniad i gyflwyno polisïau gofal iechyd newydd.

8.7 Cynadleddau a Chyfarfodydd Cyhoeddus

Gofynnwyd i Adrannau **“a oeddent yn fodlon eu bod wedi cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg yn 2008-09, drwy wneud trefniadau i alluogi'r cyhoedd i gymryd rhan yn y Gymraeg neu'r Saesneg mewn cynadleddau a chyfarfodydd cyhoeddus, a gwneud pob ymdrech i gadarnhau ymlaen llaw beth yw dewis iaith y rhai a fydd yn bresennol er mwyn hwyluso trefniadau”**⁵.

O'r 14 o adrannau a ddarparodd gynhadledd neu gyfarfod cyhoeddus yn 2008-09:

- Atebodd 9 ohonynt gan ddweud eu bod yn gwneud hyn 'y rhan fwyaf o'r amser a 3 gan ddweud eu bod yn gwneud hyn bob amser. Ni ddywedodd yr un o'r adrannau nad ydynt 'byth' yn cydymffurfio â pharagraff 4.5 o'r Cynllun, gan ddweud 'Byddwn yn gwneud pob ymdrech i gadarnhau ymlaen llaw beth yw dewis iaith y rhai a fydd yn bresennol er mwyn hwyluso ein trefniadau'.
- Nododd 12 ohonynt y gallent gynnig enghreifftiau o gynadleddau a chyfarfodydd cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn lle cafodd y defnydd o'r Gymraeg ei hyrwyddo a'i hwyluso.

Nododd un adran ei bod wedi cael adborth ar ei Chynhadledd Adrannol a dynnai sylw at ddiffyg darpariaeth ddwyieithog. O ganlyniad i hyn, bydd darpariaeth ddwyieithog ar gael ym mlynnyddoedd y dyfodol.

8.8 Safleoedd ar y rhyngryd

⁵ Paragraff 4.5 o'r Cynllun Iaith Gymraeg

Gofynnwyd i Adrannau “**a yw’r tudalennau ar y rhyngrwyd y maent yn gyfrifol amdanynt yn cydymffurfio â’r ymrwymadau yn y Cynllun, fel cynnig dewis o iaith ar dudalen gyntaf y wefan**”⁶.

O’r 15 o adrannau a oedd â chyfrifoldeb dros dudalennau ar y rhyngrwyd:

- Dywedodd 10 fod eu holl dudalennau’n cydymffurfio. Mae hyn ychydig yn uwch na’r llynedd.
- Dywedodd 13 ohonynt fod eu Tîm Gwe adrannol yn gweithredu fel porthgeidwad er mwyn sicrhau bod deunydd yn cael ei gyhoeddi drwy dudalennau ar y rhyngrwyd, yn unol â system sgorio’r Cynllun ar gyfer cyfieithu.

Mae cyfieithydd o’r tîm canolog yn cael ei neilltuo bob diwrnod i ymgymryd â’r gwaith cyfieithu ar gyfer y we drwy system rheoli cynnwys y we.

8.9 Gwasanaethau Rhyngrwyd Rhyngweithiol

Gofynnwyd i Adrannau “**pa nifer o’u gwasanaethau rhyngrwyd rhyngweithiol y maent yn gyfrifol amdanynt oedd ar gael yn y Gymraeg.**”

O’r 10 o adrannau sy’n darparu Gwasanaethau Rhyngrwyd Rhyngweithiol:

- Dywedodd 6 fod y cyfan o’u gwasanaethau rhyngrwyd rhyngweithiol ar gael yn y Gymraeg. Mae hyn yn uwch na’r canlyniadau y llynedd.
- Nododd 9 o adrannau eu bod, wrth osod tudalennau rhyngweithiol newydd ar eu gwefan, yn gwneud hynny yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Nododd yr Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad fod bwriad yn 2009-10 i ychwanegu fforymau trafod at dudalennau Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru ar y rhyngrwyd, y bydd pob un ohonynt ar gael yn ddwyieithog.

8.10 Ymgyrchoedd Cyhoeddusrwydd, Arddangosfeydd, Hysbysebion

Gofynnwyd i Adrannau:

A yw’r holl weithgareddau cyhoeddusrwydd a hysbysebu a gynhaliwyd yng Nghymru gan yr adran yn 2008-09 wedi dilyn y gofynion a nodwyd ym mharagraff 5.8 o’r Cynllun?

O’r 13 o adrannau a nododd fod gweithgareddau cyhoeddusrwydd a hysbysebu’n berthnasol iddynt:

- Dywedodd 10 ohonynt eu bod yn teimlo bod eu holl ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebion yn dilyn gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg.
- Nododd 12 ohonynt fod gweithdrefnau ar waith ganddynt i sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu hystyried wrth gynllunio gweithgareddau cyhoeddusrwydd.

⁶ Paragraff 5.6 o’r Cynllun Iaith Gymraeg

8.11 Gwasanaethau a gyflenwir ar ran yr adran gan drydydd partïon

Gofynnwyd i Adrannau “**a oeddent wedi sicrhau, lle’r oedd hynny’n briodol, fod gwasanaethau yr oeddent wedi’u gosod dan gontract i drydydd partïon yn 2008-09 wedi cynnwys gofynion ieithyddol yn unol â’r Cynllun Iaith Gymraeg**”⁷.

O’r 13 o adrannau a ddywedodd fod gwaith o’r math hwn yn berthnasol iddynt:

- Dywedodd pob un ohonynt eu bod yn fodlon bod contractau perthnasol wedi cynnwys gofynion ieithyddol. Mae hyn yn gynydd o’i gymharu â chanlyniadau’r llynedd gan fod yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi gwella yn y maes hwn.
- Nododd y 13 hynny hefyd eu bod yn cynnwys cymalau sy’n cyfeirio at y Cynllun Iaith Gymraeg mewn contractau safonol a thempledi contract.

9. Prif Ffrydio

9.1 Mae’r Gymraeg yn thema drawsbynciol yn holl feysydd polisi Llywodraeth y Cynulliad. Mae’r Cynllun yn datgan y byddwn yn sicrhau bod y Gymraeg wedi’i phrif ffrydio yn yr holl bortffolios Gweinidogol – yng nghyd-destun datblygu polisi yn ogystal â chyflenwi gwasanaethau. Yn gyffredinol, rydym wedi gweld cynnydd o ran prif ffrydio’r Gymraeg.

9.2 Cyflwynwyd rhestr gyfeirio newydd ar gyfer polisi yn 2007-08 fel rhan o’r ymdrech barhaus i brif ffrydio’r Gymraeg. Mae’r rhestrau cyfeirio wedi’u cynllunio i’w defnyddio fel rhan o Offeryn Integreiddio Porth i Bolisiau Llywodraeth y Cynulliad.

9.3 O’r 12 o adrannau a roddodd wybod bod integreiddio elfennau ieithyddol â’u gwaith polisi’n berthnasol iddynt (er y dylai hyn fod yn berthnasol ym mhob achos), dywedodd mwy na hanner eu bod yn gwneud hyn drwy’r amser. Nododd 10 o’r adrannau a ymatebodd fod eu dogfennau ymgynghori’n cynnwys ystyriaeth i’r Gymraeg.

9.4 Prif ffrydio ar lefel Adrannol

9.4.1 Trefniadau ar gyfer gweithredu’r Cynllun Iaith Gymraeg

Gofynnwyd i Adrannau “**a oes trefniadau ffurfiol ar waith ganddynt (fel gweithgor iaith, neu hyrwyddwr iaith ym mhob isadran) i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei hyrwyddo o fewn yr adran.**”

O’r 16 o adrannau:

- Dywedodd 14 ohonynt fod trefniadau ffurfiol ar waith ganddynt ar hyn o bryd i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei hyrwyddo. Mae hyn ychydig yn uwch na’r canlyniadau ar gyfer y llynedd. O’r ddwy adran nad oes ganddynt drefniadau ar waith ar hyn o bryd i sicrhau bod y Cynllun yn cael

⁷ Paragraff 3.5.2 o’r Cynllun Iaith Gymraeg

ei hyrwyddo, nododd y ddwy y byddai Cynrychiolydd Iaith Gymraeg neu hyrwyddwr yn cael ei enwebu.

- Nododd 14 ohonynt eu bod wedi penodi aelod staff i ymgymryd â chyfrifoldeb dros y Cynllun o ddydd i ddydd.

Nododd yr Adran Materion Cyfansoddiadol, Cydraddoldeb a Chyfathrebu fod ei Grŵp Cydgysylltwyr Iaith Gymraeg yn cwrdd yn rheolaidd.

9.5 Brandiau Newydd

Gofynnwyd i Adrannau **“a oeddent wedi cyflwyno unrhyw frandiau newydd yn 2008-09, ac os oeddent, pa nifer ohonynt a oedd â logos, sloganau, teitlau, acronymau, etc, yn y Gymraeg yn unig neu’n ddwyieithog”**.

- Cyflwynodd 7 o adrannau 14 o frandiau newydd yn 2008-09. O’r brandiau newydd a gyflwynwyd, roedd 13 yn ddwyieithog. Mae hyn yn well nag yn 2007-08, pan oedd 6 o adrannau wedi cyflwyno 11 o frandiau newydd, ac 8 ohonynt yn frandiau dwyieithog.

9.6 Llinellau Cymorth a Llinellau wedi’u Neilltuo

Gofynnwyd i Adrannau **“a oeddent wedi cyflwyno unrhyw linellau cymorth neu linellau wedi’u neilltuo newydd yn ystod 2008-09, ac os oeddent, pa nifer ohonynt a oedd yn gallu darparu gwasanaethau yn Gymraeg”**. O’r rhai a oedd yn gallu darparu gwasanaethau yn Gymraeg, gofynnwyd i adrannau nodi pa nifer o’r rhain a oedd wedi’u hwyluso drwy gynnig dewis o iaith yn awtomatig ac yn ddwyieithog .

- O’r chwe llinell gymorth neu linellau wedi’u neilltuo newydd a gyflwynwyd yn ystod 2008-09, roedd pob un yn gallu darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Mae hyn yn well na’r flwyddyn ddiwethaf pan nad oedd ond dwy o’r tair llinell gymorth a sefydlwyd o’r newydd yn gallu darparu gwasanaethau Cymraeg.
- Yn 2008-09, cafwyd 67,993 o alwadau i’r llinell gymorth ddwyieithog (0845 010 3300), sy’n cynnig dewis o iaith i gwsmeriaid drwy gyfarchiad dwyieithog. Cafwyd 2,457 o alwadau i’r llinell gymorth Gymraeg (0845 010 4400), sef 3.5% o gyfanswm y 70,450 o alwadau a gafwyd. Mae’r ffigur hwn yn galonogol, yn enwedig o ystyried bod llawer o’r galwadau a geir yn dod o’r tu allan i Gymru ac y byddai nifer sylweddol o bobl wedi cael gwasanaeth Cymraeg drwy’r llinell gymorth ddwyieithog.

10. Staffio

10.1 Staffio, cyfieithu, materion sy'n ymwneud â gallu dwyieithog a darparu gwasanaeth cyhoeddus

Gellid dweud mai pobl yw'r adnodd allweddol wrth gyflawni'r ymrwymadau yng Nghynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru. Felly, mae'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yn gam pwysig cyntaf at gynllunio staff yn effeithiol er mwyn darparu gwasanaethau dwyieithog. Drwy gydol yr ymarferiad ar gynllunio sgiliau dwyieithog a gomisiynwyd yn 2006, bu'n anodd iawn diweddarau'r wybodaeth yn gyson. Canfuwyd mai un o'r heriau allweddol i ni fyddai cyflwyno sgiliau iaith Gymraeg y staff ar U-Access (y System TG ar gyfer Adnoddau Dynol), system sy'n cofnodi gwybodaeth amrywiol ynghylch aelodau staff.

Ym mis Chwefror 2009, ychwanegwyd sgiliau iaith Gymraeg ar U-Access. Mae hyn wedi bod yn ddatblygiad o bwys o ran ein helpu i ganfod bylchau yn ein gwybodaeth. Mae'r adran yn caniatáu i staff gofnodi a diweddarau eu sgiliau iaith Gymraeg eu hunain, gan roi darlun cyffredinol i ni o'n gallu o ran y Gymraeg (ar sail hunanasesu sgiliau gan staff) a'n helpu i gydymffurfio â'n cynllun iaith Gymraeg. Mae staff wedi'u hannog yn rheolaidd i ddiweddarau eu manylion fel hyn.

Ochr yn ochr â hyn, mae Unedau Busnes wrthi ar hyn o bryd yn diweddarau gofynion ar gyfer swyddi o ran y Gymraeg ar y system TG ar gyfer adnoddau dynol. Mae'r gwaith ar gyfer 2009-10 ac wedyn yn cynnwys:

- Diweddarau Strategaethau a data gan Adrannau bob blwyddyn, yn yr hydref os oes modd
- Yr Adran Adnoddau Dynol i fonitro sampl o Strategaethau ar ôl hynny
- Parhau i astudio prosesau a pholisïau Adnoddau Dynol i sicrhau eu bod yn gyson ac yn gytûn â chynllunio sgiliau dwyieithog.

Mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau dull gweithredu cyson ym mhob rhan o'r sefydliad ac rydym wedi dysgu rhai gwersi yn y cyfamser. Rydym hefyd yn cydnabod mai'r nod yw cynnal a phrif ffrydio'r gwaith a gyflawnwyd ar fapio anghenion a gallu o ran sgiliau dwyieithog, a sicrhau bod yr holl Adrannau'n rhoi asesiadau ar waith yn gydwybodol.

Mae'r Adran Adnoddau Dynol hefyd wedi bod yn gweithio i brif ffrydio cynllunio ar gyfer sgiliau dwyieithog. I'r diben hwn, cynhaliwyd gweithdai i staff adnoddau dynol i'w helpu i gysoni eu polisïau a'u gweithdrefnau â'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod yr ymarferiad. Cynhaliwyd cyfarfodydd dilynol hefyd rhwng ymgynghorydd annibynnol, Adrannau yn Llywodraeth y Cynulliad a'u Cynghorwyr Adnoddau Dynol i adolygu cynnydd ar gynllunio a rheoli sgiliau dwyieithog yn eu meysydd. Canfuwyd bod angen gwaith pellach i sicrhau mwy o berchnogaeth ar weithgarwch ar gyfer cynllunio a rheoli sgiliau dwyieithog ar lefel yr Adrannau a'r Is-adrannau, gan fod hyn yn gysylltiedig â'u gallu fel Adrannau i fodloni ymrwymadau a thargedau'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Mewn gwirionedd, mae llawer wedi'i gyflawni y flwyddyn ddiwethaf a'r angen pennaf yn awr yw sefydlu a chynnal y buddsoddiad a gafwyd.

10.2 Y Gallu Dwyieithog Presennol

Mae'r tabl canlynol yn dangos dadansoddiad o'r prif ganlyniadau ar gyfer sgiliau iaith Gymraeg unigolion ar ddiwedd mis Mai 2009. Mae'r ffigurau wedi'u seilio ar ddata a fewnbynwyd ynghylch cyfanswm o 4876 o aelodau staff, sef 75% o weithlu Llywodraeth y Cynulliad.

	Niferoedd a chanran y staff sy'n gallu defnyddio pob sgil yn y rhan fwyaf neu'r cyfan o'r sefyllfaoedd gwaith (lefelau 4 a 5 yn y gofrestr sgiliau)
Siarad	726 (12%)
Deall	720 (12%)
Darllen	650 (11%)
Ysgrifennu	509 (9%)

O'r rhai a ymatebodd, mae gan bron 2500 o aelodau staff (41% o weithlu presennol Llywodraeth y Cynulliad) rywfaint o sgiliau iaith Gymraeg, yn amrywio o lefel 1 (sylfaenol) i lefel 5 (rhugl).

10.3 Y Gallu Dwyieithog Presennol – lefel yr Adrannau a'r Is-adrannau

Nododd 12 o Adrannau fod ganddynt rai timau a oedd yn darparu gwasanaethau rheng flaen, a dweud bod staff dwyieithog yn rhai o'u timau o leiaf yn 2008-09. Mae hyn ychydig yn is na'r canlyniadau a gafwyd y llynedd. Dywedodd pob un o'r adrannau hyn y gallent ddarparu tystiolaeth a oedd yn dangos eu bod wedi cynnal archwiliadau i asesu sgiliau iaith staff, eu bod wedi ymgymryd ag asesiad i bennu swyddi a gweithleoedd lle mae angen staff Cymraeg, wedi dadansoddi bylchau yn y ddarpariaeth o ran staff Cymraeg, wedi ystyried yr angen am sgiliau iaith Gymraeg wrth recriwtio mwy o staff ac wedi sicrhau bod gwersi Cymraeg yn cael eu cynnig i staff.

Cyflawnwyd gwaith dadansoddi i bennu i ba raddau yr ymgwymerodd Is-adrannau â gwaith yn Gymraeg, heb ddibynnu ar y Gwasanaeth Cyfieithu, fel y nodwyd yn adran 6 o'r Cynllun.

Yn 2008-09, roedd cynnydd cyffredinol yng nghyfran yr is-adrannau a ymgwymerodd â thasgau penodol heb ddibynnu ar y Gwasanaeth Cyfieithu. Mae dadansoddiad isod o'r canlyniadau fesul tasg:

- Roedd 83% wedi deall cynnwys llythyrau Cymraeg yr oeddent wedi'u derbyn o leiaf 'weithiau' (tua 6 y cant yn uwch nag yn 2007-08);
- Roedd 59% yn prosesu ffurflenni ac ymatebion i ymgynghoriadau yn Gymraeg o leiaf 'weithiau' (tua 16 y cant yn uwch nag yn 2007-08);
- Roedd 54% yn paratoi deunydd ysgrifenedig o lai na 500 o eiriau'n ddwyieithog o leiaf 'weithiau' (19 y cant yn uwch nag yn 2007-08);

- Roedd 65% yn paratoi eitemau ag ychydig eiriau ynddynt (e.e. tablau, dolenni ar gyfer gwe-lywio, diagramau) mewn fformat dwyieithog o leiaf 'weithiau' (17 y cant yn uwch nag yn 2007-08);
- Roedd 48% yn diweddarau gwefannau yn Gymraeg a Saesneg o leiaf 'weithiau' (10 y cant yn uwch nag yn 2007-08);
- Nododd 57% eu bod yn adolygu drafftiau o ddogfennau wedi'u cyfieithu ac yn prawfddarllen y ddwy iaith o leiaf 'weithiau' (13 y cant yn uwch nag yn 2007-08).

Gofynnwyd i Adrannau nodi pa nifer o'u timau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen a oedd yn cynnwys staff dwyieithog yn 2008-09.

O'r 12 o adrannau y mae darparu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen yn berthnasol iddynt:

- Dywedodd pob un ohonynt fod staff dwyieithog yn rhai o'u timau o leiaf. Mae hyn ychydig yn is na'r canlyniadau ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf. Er enghraifft, bu gostyngiad bach yn yr adran Adnoddau Dynol (Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol bellach) yn y maes hwn. Yn ogystal â hynny, nodasant, er mai ychydig o wasanaethau cyhoeddus rheng flaen y maent yn eu darparu, fod y Tîm Allgymorth yn y gangen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn mynd i ffeiriau gyrfaoedd ledled Cymru a'i fod wedi gallu darparu gwasanaeth dwyieithog yn y digwyddiadau hyn gan fwyaf.
- Dywedodd pob un ohonynt y gallent ddarparu tystiolaeth i ddangos eu bod:
 - wedi cynnal archwiliadau i asesu sgiliau iaith staff;
 - wedi ymgymryd ag asesiad i bennu swyddi a gweithleoedd lle mae angen staff Cymraeg;
 - wedi dadansoddi bylchau yn y ddarpariaeth o ran staff Cymraeg;
 - wedi ystyried yr angen am sgiliau iaith Gymraeg wrth recriwtio mwy o staff;
 - wedi sicrhau bod gwersi Cymraeg yn cael eu cynnig i staff (os ydynt ar gael).

11. Hyfforddiant iaith

11.1 Mae Acen o dan gontract ar hyn o bryd i gynnal hyfforddiant Cymraeg i staff Llywodraeth y Cynulliad. Adroddwyd bod nifer sylweddol o staff wedi cael anhawster wrth gofrestru ar gyrsiau hyfforddi yn ystod y flwyddyn oherwydd diffyg cyllid. Cynigir hyfforddiant sy'n addas i wahanol lefelau, o'r lefel cyn mynediad at y lefel rugl, ac addaswyd adnoddau penodol ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad yn neilltuol. Mae'r cyrsiau'n cynnwys elfennau o iaith gyffredin, bob dydd, yn ogystal ag elfennau sy'n berthnasol i faterion sy'n gysylltiedig â gwaith. Po uchaf fydd lefel cymhwysedd y cyrsiau, mwyaf fydd canran y deunydd sydd ynddynt sy'n gysylltiedig â gwaith.

Cynhaliwyd 38 o gyrsiau rhwng mis Ebrill 2008 a mis Mawrth 2009, mewn 13 o wahanol leoliadau ledled Cymru, a chymerwyd rhan gan 225 o fyfyrwyr. Y gyllideb flynyddol ar gyfer Hyfforddiant Iaith Gymraeg ar hyn o bryd yw £169,000.

Yn ystod 2008-09, cynhaliwyd gweithgareddau allgwricwlaidd hefyd lle gofynnwyd i ymgeiswyr wneud gwaith ychwanegol y tu allan i'r ystafell ddsbarth er mwyn cael mwy o oriau cyswllt â'r Gymraeg. Cofrestrwyd mwy na 3800 o oriau o weithgareddau o'r fath mewn Cynlluniau Dysgu Personol gan 185 o fyfyrwyr. Rhai enghreifftiau o weithgareddau oedd sesiwn 'Coffi a Chlonc', helpu dysgwyr eraill, siarad Cymraeg yn y gweithle, dysgu am y Gymru gyfoes, cymryd rhan mewn digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg y tu allan i'r gwaith, gweithio gyda mentoriaid, a dilyn cyrsiau Cymraeg y tu allan i Gymru.

11.2 Hyfforddiant galwedigaethol

Yn ystod 2008-09, mae nifer o gyrsiau hyfforddi galwedigaethol wedi'u trefnu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan brif ddarparwr hyfforddiant Llywodraeth y Cynulliad – Eliesha. Ymhlith y rhain mae sesiynau ar Reoli Cofnodion, Is-ddeddfwriaeth, Arweiniad i Ddeddfu, a Rhaglenni Datblygu Rheolwyr.

12. System blaenoriaethu cyfieithu

12.1 Mae anghenion corff mor fawr ac amrywiol â Llywodraeth y Cynulliad o ran cyfieithu ysgrifenedig yn enfawr, wrth iddi ymdrechu i gwrdd â gofynion ei Chynllun Iaith Gymraeg mewn cysylltiad â chyhoeddiadau a deunyddiau ysgrifenedig. Mae niferoedd yr eitemau cyfieithu a brosesir gan y Gwasanaeth Cyfieithu yn gyson uchel ar gyfer pob agwedd ar waith cyfieithu.

Oherwydd hynny, mae'r system blaenoriaethu cyfieithu ar waith o dan y Cynllun presennol i sicrhau ein bod yn dewis deunydd priodol i'w gyfieithu, er mwyn defnyddio adnoddau cyfyngedig yn y modd mwyaf effeithiol. Rydym wedi ein bodloni, drwy waith monitro, fod y system yn cael ei gweinyddu'n gywir gan mwyaf.

Er bod lefel yr hyder mewn Adrannau polisi wedi gwella, roedd nifer yr eitemau gwaith a gyfeiriwyd i'r Gwasanaeth Cyfieithu 12% yn uwch nag yn 2007-08. Roedd cynnydd o 7% yn nifer y geiriau i'w cyfieithu a chynnydd o 25% yn nifer y tudalennau a gafodd eu prawfddarllen cyn eu cyhoeddi yn Gymraeg.

Er mwyn cael pwynt rheoli, mae Uned yr Iaith Gymraeg yn derbyn yr holl ffurflenni blaenoriaethu cyfieithu'n electronig. At ddibenion monitro yn 2008-09, cymerodd yr Uned hap-sampl o ffurflenni blaenoriaethu cyfieithu o hanner cyntaf y flwyddyn, sgorio'r eitemau'n annibynnol a chymharu'r sgôr hon â'r un a gyflwynwyd gan yr Is-adran. Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, roedd y rhan fwyaf o Is-adrannau wedi cymhwysu'r fethodoleg blaenoriaethu'n llwyddiannus ac yn gywir ac roedd cydberthyniad agos, at ei gilydd, rhwng y sgorau a roddwyd gan Is-adrannau a'r asesiad annibynnol.

Yn achos 95 o'r 120 o eitemau a samplwyd, dangoswyd bod y dosbarthiad yn gywir. Er bod 25 o eitemau wedi'u sgorio'n anghywir, roedd yr anghydymffurfio â'r Cynllun ar lefel is. Y rheswm dros hyn yw na chafodd y sgôr anghywir effaith o bwys ar y canlyniad mewn 10 achos, e.e. rhoddwyd sgôr Categori B1 i eitemau Categori A fel eu bod yn cael eu cyfieithu beth bynnag. Roedd nifer o'r dogfennau hynny a oedd wedi'u sgorio a'u gosod yn y categori anghywir yn llythyrau esboniadol/

gwahoddiadau.

Oherwydd hyn, mae angen inni barhau i hybu ymwybyddiaeth ynghylch y system sgorio a'r canllawiau ar ei chyfer er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei chymhwyso mewn modd cyson a chywir.

12.2 Cyfieithu dogfennau

Yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'n ofynnol cyfieithu dogfennau yng Nghategori A a B1. Rhaid cyflwyno dogfennau sydd yng Nghategori B2 i'r Gwasanaeth Cyfieithu er mwyn ystyried a oes digon o adnoddau cyfieithu ar gael i'w cyfieithu. Mae Tabl 3 yn dangos bod y Gwasanaeth Cyfieithu wedi derbyn y mwyafrif helaeth o ddogfennau yng Nghategori A (96.31%) a B1 (0.03%) yn 2008-09, ac wedi derbyn 17 o ddogfennau yng Nghategori B2.

Dogfennau Categori A, B1 a B2 a gafwyd, a gyfieithwyd ac a wrthodwyd yn 2008-09				
Categori	Eitemau a gafwyd	Eitemau a gyfieithwyd	Eitemau'n cael eu cyfieithu	Eitemau a wrthodwyd
A	9,967	9,781	120*	66
B1	286	275	4	7
B2	78	28	12	38
dim sgôr / gwybodaeth	17	0	13	4

*11 o eitemau'n aros penderfyniad

D.S. Mae'r tabl yn nodi nifer yr eitemau, yn ôl categori, a broseswyd gan y Gwasanaeth Cyfieithu yn ystod 2008-09. Nid yw'r ffigurau'n dangos y cyfan o'r gwaith cyfieithu a gyflawnir gan Lywodraeth y Cynulliad, yn enwedig gan nad ydynt yn cynnwys y cyfieithu ar ddogfennau ar wahân a weinyddir gan rai Adrannau (e.e. Cadw, AGGCC).

12.3 Adolygiad o'r Gwasanaeth Cyfieithu

Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu yn disgwyl y canlyniad i adolygiad annibynnol. Cwblheir y gwaith hwn yn 2009-10.

13. Uned yr Iaith Gymraeg

13.1 Trefniadau gweinyddol a chynlluniau ar gyfer datblygu yn y dyfodol - Uned yr Iaith Gymraeg

Mae trefniadau gweinyddu ar waith i hybu a monitro'r gweithredu ar y Cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys Tîm y Cynllun Iaith Gymraeg (sy'n cynnwys 3 swyddog ar adeg cyhoeddi hyn), ac Uned yr Iaith Gymraeg yn gyffredinol a Chyd-DREFNYDDION Gwasanaethau Dwyieithog sydd ym mhob un o Adrannau Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r adran hon yn disgrifio hefyd y sesiynau briffio, canllawiau, gwybodaeth a hyfforddiant a ddarperir i ddatblygu ymwybyddiaeth staff.

13.2 Cyfrifoldeb

Cynhaliwyd cyfanswm o chwe chyfarfod gan y Cyd-drefnyddion Gwasanaethau Dwyieithog yn 2008-09. Ymhlith y cyflwyniadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn yr oedd:

- prif ganfyddiadau Adroddiad Blynyddol 2008-09;
- Cynllunio Sgiliau Dwyieithog;
- defnyddio'r Gymraeg yn fewnol;
- Cynlluniau Gweithredu Iaith Gymraeg.

13.3 Cyrsiau cynefino, canllawiau, sesiynau briffio a hyfforddiant

Mae Uned yr Iaith Gymraeg yn dal i gynnal sesiynau misol yn ystod cyrsiau cynefino yn 2008-09, ac, yn yr un modd â'r flwyddyn ddiwethaf, roedd rhwng 12 ac 20 o gynrychiolwyr yn bresennol ym mhob sesiwn ar gyfartaledd. (Mae'r cyrsiau hyn yn cael eu rhedeg gan Hyfforddiant Eliesha.) Mae'r deunydd ar gyfer y cwrs cynefino'n cynnwys hyfforddiant ar hybu ymwybyddiaeth ynghylch y Cynllun Iaith Gymraeg a'r gweithredu arno o fewn Llywodraeth y Cynulliad, Diwylliant Cymraeg a data am Gymru'n gyffredinol.

13.4 Rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun

Mae Tîm y Cynllun Iaith Gymraeg wedi bod yn bresennol mewn nifer o ffeiriau gwybodaeth mewnol a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod 2008-09 ac wedi achub ar y cyfle ynddynt i roi mwy o gyhoeddusrwydd i'r Cynllun Iaith Gymraeg ymysg cydweithwyr. Mae Tîm y Cynllun Iaith Gymraeg wedi bod yn cydweithio'n agos hefyd â Chyfarwyddiaeth Gyfathrebu Llywodraeth y Cynulliad ar ymgyrch farchnata, sy'n tynnu sylw at wahanol agwedd ar y Cynllun Iaith Gymraeg ar wahanol adegau o'r flwyddyn.

Mae Uned yr Iaith Gymraeg wedi cyhoeddi erthyglau newyddion hefyd ar Gorwel, ynghylch amryw o faterion, fel hybu ymwybyddiaeth ynghylch safle Uned yr Iaith Gymraeg ar y fewnrwyd.

13.5 Deunydd mewnol

Dechreuodd y Tîm Cyfathrebu Mewnol ar waith ar ddogfen Polisi Iaith Gymraeg

ddiwygiedig i staff ar y cyd ag Uned yr Iaith Gymraeg a Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth y Cynulliad yn 2008-09 a bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2009-10. Yn unol â hyn, cynhyrchir cylchlythyr mewnol Llywodraeth y Cynulliad 'Seren' yn ddwyieithog, yn yr un modd â'r holl negeseuon e-bost, posteri, a thafleuni â thestun byr sydd ar gyfer y staff i gyd yn fewnol.

Mae cynrychiolwyr mewn Digwyddiadau Arweinyddiaeth sy'n dymuno cynnal trafodaethau yn Gymraeg yn cael y dewis i wneud hynny os oes nifer digonol o siaradwyr Cymraeg yn bresennol ym mhob digwyddiad i beri bod hynny'n ymarferol. Mae'r tîm cyfathrebu mewnol wedi bod yn cydweithio'n agos â rhanddeiliaid i ymestyn y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfathrebiadau mewnol ac mae'n disgwyl parhau â'r gwaith hwn yn 2009-10 ac wedyn.

13.6 Cwynion

Cofrestrodd Uned yr Iaith Gymraeg 12 o gwynion a oedd yn gysylltiedig â'r Cynllun yn ystod 2008-09 gan gynnwys y rhai a anfonwyd yn uniongyrchol i Is-adrannau. Mae'r data ar gyfer eleni'n dangos inni gael un g• yn yn fwy na'r flwyddyn ddiwethaf.

13.7 Cynllun Gwella'r Gymraeg yn y Gweithle

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu datblygu cynllun gwella'r Gymraeg, er mwyn sicrhau bod y corff yn barod i gyflawni'r arferion gorau mewn ymateb i'r Mesur arfaethedig ynghylch yr Iaith Gymraeg. Bydd hyn o gymorth hefyd wrth baratoi ein cynllun iaith Gymraeg nesaf, sydd i'w roi ar waith erbyn mis Rhagfyr 2010.

13.8 Adolygiad o Wasanaethau Cymorth Busnes y Cyfarwyddwyr Cyffredinol

Fel rhan o raglen barhaus Uned yr Iaith Gymraeg i wella ei chymorth ar gyfer polisi a strategaeth er mwyn gweithredu'r Cynllun iaith Gymraeg, sefydlwyd 'ffrwd waith iaith Gymraeg y Cyfarwyddwyr Cyffredinol' yng ngwanwyn 2009 dan arweiniad tîm y Cynllun iaith Gymraeg. Dechreuwyd ar y gwaith hwn drwy bennu swyddogaethau a materion cyffredol sy'n ymwneud ag agweddau ar weithredu a chyflawni Cynllun iaith Gymraeg Llywodraeth y Cynulliad mewn Adrannau, gan ystyried yn arbennig y cyfleoedd sy'n codi wrth greu unedau busnes newydd y Cyfarwyddwyr Cyffredinol. Bydd cytundeb ar yr argymhellion a'r cynigion a wneir gan y gr• p gorchwyl a gorffen o gymorth i sicrhau bod adnoddau priodol ac arferion gorau cyson wedi'u sefydlu'n gadarn wrth symud ymlaen.

13.9 Cynlluniau Gweithredu Iaith Gymraeg

Yn dilyn adolygiad blaenorol o'r cynlluniau gweithredu, cawsant eu symleiddio yn 2008-09 ac maent bellach yn cynnwys crynodeb o'r prif flaenoriaethau o ran strategaeth/polisi sydd yn y Cynllun Gweithredu. Cwblhawyd gwaith pellach yn ystod 2008-09 i sefydlu'r broses barhaus hon, a bydd hyn yn parhau yn 2009-10.

14. Penodiadau Cyhoeddus

Mae dwy set o ofynion wedi'u monitro yn yr adran hon: ystyriaeth i allu ieithyddol mewn prosesau dethol a darparu gwasanaeth dwyieithog i ymgeiswyr.

Cwblhawyd dadansoddiad o benodiadau newydd gan Lywodraeth y Cynulliad i CNLCau yn 2008-09. Gwnaethpwyd cyfanswm o 36 o benodiadau. Cafwyd bod 18% o'r ymgeiswyr yn siarad Cymraeg; roedd 32% o'r rheini a ddetholwyd i'w cyfweld yn siarad Cymraeg; ac roedd 25% o'r rheini a benodwyd hefyd yn siarad Cymraeg.

Yn yr un modd â'r blynyddoedd cynt, mae'r holl ddeunydd a ddefnyddir yn y broses hon yn ddwyieithog a chynhaliwyd cyfweiliadau yn newis iaith yr ymgeisydd, un ai drwy drefnu panel yr oedd pawb arno'n siarad Cymraeg neu drwy ddarparu gwasanaeth cyfieithu drwy'r tîm mewnol. Bydd yr ymgeisydd yn cael ei hysbysu bob tro am gyfansoddiad ieithyddol y panel fel y gall wneud dewis gwybodus ynghylch, er enghraifft, a fydd yn gofyn am wasanaeth cyfieithu yn y cyfweiliad ai peidio.

15. Targedau Cynllun Iaith Gymraeg 2006 a'r cynnydd hyd yn hyn

Targed	Statws (ym Mawrth 2009)
Bydd Cynlluniau Gweithredu Iaith Gymraeg Adrannol yn dod i rym	Wedi'i gyflawni ac yn parhau (blynyddol)
Bydd Adrannau'n prif ffrydio'r Gymraeg mewn cynlluniau gweithredol	Wedi'i gyflawni ac yn parhau (blynyddol)
Bydd y rhan fwyaf o'r staff yn rhoi cyfarchiad dwyieithog wrth ateb y ffôn erbyn Ionawr 2008 (para. 4.4.1 o Gynllun Iaith Gymraeg (CIG) Llywodraeth y Cynulliad)	Wedi'i gyflawni ac yn parhau
Datblygu gwasanaeth ffôn cwbl ddwyieithog y tu allan i oriau arferol erbyn 2010 (para. 4.4.1 o'r CIG)	Heb ei gyflawni
Bydd yr holl gyfeiriadau e-bost yn ddwyieithog o Fawrth 2007 (para. 5.1 o'r CIG)	Wedi'i gyflawni ac yn parhau
Cwblhau darlunio arwyddion traffig dwyieithog a ragnodwyd erbyn gwanwyn 2007 (para. 5.3 o'r CIG)	Wedi'i gyflawni ac yn parhau
Bydd mynediad llawn at ddata Sgiliau Iaith Gymraeg a dadansoddiad ohonynt ar gael yn ystod cyfnod y Cynllun hwn (para. 6.1 o'r CIG)	Heb ei gyflawni'n llwyr eto (oherwydd ad-drefnu sylweddol yn Llywodraeth y Cynulliad)
Adolygiad o weithrediad y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog erbyn Rhagfyr 2008	Heb ei gyflawni eto (mae hyn i'w roi ar waith o fewn tri mis wedi i Gynllun Iaith Gymraeg newydd Llywodraeth y Cynulliad ddod i rym)
Datblygu darpariaeth hyfforddiant Cymraeg newydd i staff ledled Cymru i'w chychwyn yn	Wedi'i gyflawni ac yn parhau

2007 (para. 6.1 o'r CIG)	
Bydd Uned yr Iaith Gymraeg a'r Adran Adnoddau Dynol yn datblygu cwrs hyfforddi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg erbyn diwedd 2007 (para. 6.6 o'r CIG)	Wedi'i gyflawni ac yn parhau
Ystyried dulliau eraill o adnabod siaradwyr Cymraeg, e.e. drwy ddefnyddio'r bathodynau iaith Gwaith ar negeseuon e-bost, cardiau busnes a bathodynau diogelwch (para. 6.7 o'r CIG)	Wedi'i gyflawni ac yn parhau
Datblygu dull cytûn o fonitro gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg erbyn Mawrth 2007	Wedi'i gyflawni ac yn parhau

16. Targedau ar gyfer 2009/10

- Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgymryd ag archwiliad thematig o'r gweithredu ar y cynllun hyd yn hyn ac yn ystyried camau gweithredu/gwelliannau;
- Bydd Uned yr Iaith Gymraeg yn cynnal adolygiad o'r arferion gorau ac yn datblygu cynllun gwella;
- Bydd Uned yr Iaith Gymraeg yn dechrau'r gwaith ar gynllun 2010 – diffinio anghenion defnyddwyr a datblygu rhaglen waith ;
- Bydd Adrannau'n diweddarau eu Cynlluniau Gweithredu Iaith Gymraeg a'u data a strategaethau sgiliau dwyieithog bob blwyddyn, yn yr Hydref os oes modd;
- Bydd Uned yr Iaith Gymraeg yn adolygu'r canllawiau'r presennol ar gyfer y CIG a'r wybodaeth amdano ar y fewnwyd ac yn datblygu cyfundrefn fonitro fanylach ar gyfer gweithgareddau Adrannau;
- Datblygu a chytuno ar brosesau a pholisïau monitro a gweithredu ar y cyd â'r adran Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau eu bod yn gyson ac yn gytûn â chynllunio ar gyfer sgiliau dwyieithog.